PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# Y Tincer

PRIS 75c | Rhif 374 | RHAGFYR 2014



Cylch Meithrin yn dathlu t.14



Ffarwelio efo Ceri t.6



Datblygu yng Ngogerddan t.18

# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda



Gordon Jones ar ymweliad â'i ddeintydd i lansio ei gyfrol *Dannedd Mel Morgwn* – gweler t.18

## Actor ifanc



Owen Jac Roberts, gyda Richard Harrington o'r gyfres Y Gwyll. Cafodd Owen, mab Karen (Hughes gynt) a Matthew Roberts, Rhydyfelin, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac yn aelod o Ysgol Sul Horeb ei ddewis fel ecstra i'r ail gyfres. Bydd y bennod yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd




Caryl ac Aled a'r plant – Hedd a Gwenno – yn mwynhau stori – gweler t.18

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Ionawr
## Deunydd i law: Ionawr 2 Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 14

**RHAGFYR 18** Nos Iau Plygain traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 19** Bore Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Gyfun Penweddig ym Methel am 10.30. Ceir anerchiad gan gyn-ddisgybl Y Parchg Casi Jones (Thomas gynt), Y Felinheli.

**RHAGFYR 19** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Nadolig

**RHAGFYR 21** Nos Sul Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

## 2015

**IONAWR 5** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau'r Nadolig

**IONAWR 7** Dydd Mercher Angharad Lewis yn siarad am 'Ddringo Kilimanjaro' Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch

**IONAWR 14** Nos Fercher 'Taith i'r India', y Parchedig Wyn Morris.
Cymdeithas Gymraeg y Borth yn Neuadd Gymunedol Y Borth am 7.30.

**IONAWR 16** Nos Wener Noson Cwis Caws a Gwin yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch. Y Cwisfeistr yw Mr. Bob Hughes Jones.

**IONAWR 16** Nos Wener Bro fy mebyd yng nghwmni Jill, Judith, Llio a Nia Peris Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**IONAWR 21** Nos Fercher Hazel Walford Davies yn sôn am
O. M. Edwards: y stori o'r newydd Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**IONAWR 21** Nos Fercher Gyrfa chwist yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 8.00. Croeso i bawb; raffl fawr yn cael ei thynnu gyda gwobrau yn cynnwys £150 o vouchers M&S

**IONAWR 30** Nos Wener Hwyl a sbri i'r holl blwyfi yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 6.30

**IONAWR 31** Pnawn Sadwrn Oedfa ddwyieithog o ddiolchgarwch am wasanaeth y Parchg Peter M. Thomas a neilltuo y Parchg Judith Morris yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel, Aberystwyth am 2.00.

### RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Teulu Tangeulan, Capel Bangor £6
Elen Evans, Erwlas, Bow Street £5

Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu – eleni i'r elusen GISDA – sy'n darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc bregus.

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu.

### Colli Cadeirydd Cyntaf y Tincer

A'r Tincer yn mynd i'r wasg daeth y newyddion am farwolaeth Eddie Jones, Waunfawr, Aberystwyth - cyn brifathro Ysgol Rhydypennau. Estynnwn ein cydymdeimlad â Bethan Jones ac â Nerys Ann a Dafydd a'u teuluoedd. Eddie oedd Cadeirydd cyntaf y Tincer a bu yn Brif Ddosbarthydd a Chadeirydd o 1977 hyd 1997. Gobeithiwn gyhoeddi teyrnged iddo yn y rhifyn nesaf.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Tachwedd 2014**

£25 (Rhif 194) Sian Mari Evans, Deilyn, Cefn-llwyd
£15 (Rhif 85) Anwen Pierce, 3 Bryn Meillion, Bow Street
£10 (Rhif 32) Huw Meirion Edwards, Banc yr Eithin, Llandre

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 19**

**Nawr yw'r amser i ymaelodi yn Y Cyfeillion gan y bydd tymor newydd yn dechrau mis Ionawr.**

Annwyl Olygydd
Ar ran Cymdeithas Hanes Teuluoedd Ceredigion hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at gyhoeddiadau a fyddai efallai o ddiddordeb iddynt ac sydd ar werth gan y Gymdeithas. Ers rhai blynyddoedd yr ydym wedi bod yn ymweld â mynwentydd yng Ngheredigion er mwyn adysgrifio'r cerrig beddau a geir yno. Dyma restr o'r llyfrynnau sydd ar gael:

Capel Capel Bangor, Eglwys Newydd, Gwnnws, Llanafan, Llanddeiniol, Llanfihangel-y-Creuddyn, Llangynfelyn, Llanilar, Llantrisant, Lledrod, Maen y Groes; Mynydd Bach, Salem; Mynwent y Dref, Cei Newydd; Pen-llwyn, Capel Bangor; Rhostie; Tal-y-bont – bron yn barod; Tal-y-bont, Bethel – bron yn barod; Tal-y-bont, Nazareth; Tal-y-bont, Tabernacl; Trefenter; Ysbyty Cynfyn, Yspyty Yswyth; Ystrad Meurig.

Os oes diddordeb gan unrhyw un o'ch darllenwyr mewn hanes teulu neu yn wir hanes lleol, beth am ymaelodi â'r Gymdeithas. Cynhelir cyflwyniadau yn Neuadd Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, Aberystwyth yn fisol.

Am fwy o fanylion gweler gwefan y Gymdeithas www.cgnfhs.org.uk neu ebostio ymholiadau@cgnfhs.org.uk

Yn gywir,
Menna H Evans, Ysgrifennydd

Fel mae'r TIncer yn mynd i'r wasg cafwyd gwybod fod - yn dilyn cais i Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen – "Cor Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn" wedi eu dewis i gystadlu ar y dydd Mawrth yn 2015. Dymuniadau gorau iddynt.



## 30 MLYNEDD YN ÔL

Y delynores Eira Lynn Jones, Aelybryn, (Capel Bangor) enillydd Ysgoloriaeth Nansi Richards 1984 (O'r Tincer Rhagfyr 1984)

Mae Eira Lynn yn byw ym Manceinion ac yn 2015 bydd yn dathlu 25 mlynedd yn dysgu yn yr RNCM fel pennaeth Adran Telyn yn y Coleg Cerdd. Ar Mawrth 19, cynhelir cyngerdd gyda 13 o delynorion sydd wedi cael hyfforddiant ganddi - rhai yn y Coleg nawr a rhai dros y blynyddoedd. Yn eu plith mae Manon Llwyd a Mary Ann Kennedy - y ddwy fyfyrwraig cyntaf, hefyd disgybl o wlad Groeg, a thelynorion o bob rhan o Brydain. Darn a gomisiynodd Eira gan Bill Connor 21 blynedd yn ôl - Songs for Love and Remembering fydd yn cael ei ganu. Fe'i comisiynwydl yn ystod argyfwng yn Sarajavo. Roedd Gŵyl Telyn yn yr RNCM a mi gafodd y darn y grandawiad cyntaf yr amser hynny. Darn sydd yn berthnasol heddiw hefyd.

Bydd y cyngerdd hefyd yn agor y dathliadau ar gyfer lawnsio Neuadd Gyngerdd newydd yr RNCM. Gweler http://eiralynnjones.co.uk/

## Eisteddfodau'r Urdd 2015

**CHWEFROR 25** Dydd Mercher Gŵyl Offerynnol Ceredigion yn Theatr Felin-fach am 12.30
**MAWRTH 4** Dydd Mercher. Rhagbrofion Eisteddfod cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y dref
**MAWRTH 4** Dydd Mercher Eisteddfod Uwchradd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig
**MAWRTH 5** Dydd Iau. Eisteddfod Ddawns ac Eisteddfod cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
**MAWRTH 16** Nos Lun. Eisteddfod Rhanbarth Aelwydydd yn yr Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 6.00.
**MAWRTH 20** Dydd Gwener. Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb
**MAWRTH 21** Dydd Sadwrn. Eisteddfod cynradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00
**MAWRTH 24** Dydd Mawrth. Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion yn Theatr Felin-fach am 12.30

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

**Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY**

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CANOLFAN GYMRAEG?

Annwyl Gyfaill
Mae Prifysgol Aberystwyth yn archwilio'r syniad o sefydlu Canolfan Gymraeg, ochr yn ochr â llety myfyrwyr, er budd y Brifysgol a'i chymuned leol, sef trigolion Aberystwyth a'r ardal. Rydym wedi sefydlu Gweithgor sy'n cynnwys aelodaeth o blith myfyrwyr a chynrychiolwyr staff academaidd a gweinyddol y Brifysgol, ac rydym yn awyddus i ymgynghori'n eang er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau'n gydnaws ag anghenion a dyheadau'r gymuned sy'n bwysig inni.

Ydych chi o'r farn bod galw am Ganolfan Gymraeg? Ac os, felly, beth ddylai rôl a gweithgareddau'r Ganolfan Gymraeg fod? Hoffwn eich gwahodd i gyflwyno eich syniadau am yr hyn yr hoffech chi ei weld yn digwydd mewn Canolfan Gymraeg ym Mhantycelyn. Croesawn unrhyw awgrymiadau a lledaenwch y neges am yr ymgynghoriad ymhlith eich cyfoedion.

Anfonwch eich cynigion atom ar bapur at:

Gwenno Edwards
Swyddfa B38,
Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg,
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
SY23 3DY

Neu anfonwch e-bost at pantycelyn@aber.ac.uk

Annwyl Ddarllenydd,
Dyma dynnu eich sylw at gynllun o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a allai fod o ddiddordeb ichi. Eisoes mae myfyrwyr ledled Cymru a'r tu hwnt (gan gynnwys rhai o'r Wladfaa) wedi dechrau astudio ar lein.

Ond brysiwch! Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw **12 Ionawr 2015**.

Mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor wedi dod at ei gilydd i greu cyrsiau newydd ar y we trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob math o feysydd—o Hanes i Seicoleg, o Athroniaeth i Ffotograffiaeth, o Sgiliau Iaith i Gerddoriaeth. I weld y dewis eang o gyrsiau sydd eisoes ar gael ewch ar y we: www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell

Mae'r cyrsiau hyn i gyd ar gael i bawb dros 17 oed, a does dim rhaid bod ar y campws i'w hastudio oherwydd bod y cyrsiau hyn i gyd ar y we. Os ydych chi am ddatblygu sgiliau yn y gweithle neu ddilyn pwnc sydd o ddiddordeb ichi mae hwn yn gyfle ardderchog.

Fel arfer, mae pob cwrs yn costio £120 yr un, ond mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn barod i gynnig lle yn rhad ac am ddim i'r sawl sy'n cofrestru am bedwar cwrs (gwerth £480).

Ewch i wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell) i gael ffurflen gofrestru a danfonwch hi ynghyd â dau eirda cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau yw 12 Ionawr 2015.

I gael rhagor o fanylion neu i drafod hyn ymhellach mae croeso ichi gysylltu â mi ar y ffôn neu drwy e-bost (01970 62 8474 / owt3@aber.ac.uk).

Yn gywir,
Dr Owen Thomas
(Cyfarwyddwr y Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser)
www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell

# DÔL-Y-BONT

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Mrs. Gloria Davies a'r teulu, Maes y Leri, ar farwolaeth brawd i Gloria yn Aberystwyth yn ddiweddar.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Dymuniadau da

Dymunwn yn dda i Siân Evans, Y Fronfraith, yn ei swydd newydd yn gynorthwy-ydd dysgu rhai gydag anghenion arbennig yn Ysgol Penweddig.

### Gwellhad buan

Gwellhad buan i Nia Gore, Troedrhiwgwinau, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy Pugh, Fronddewi, a theulu'r Fronfraith ar golli perthynas – Priscilla Rees, Llangwyryfon;

â Mr Antony Lewis, Brynhyfryd, ar golli ei dad – Mr Iori Lewis, Aberystwyth;

ac â Mr Ken Hughes, Troedrhiwgwinau, ar golli chwaer – Mrs Georgina Jones, Bow Street.

### Bedydd

Bedyddiwyd Evie-Rosa Kellaway, merch Annmarie a Geoff, Cefn-llwyd yn Eglwys Llanbadarn Fawr ar Dachwedd 9fed

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*



**Dyma drefn casgliadau gwastraff Cyngor Sir Ceredigion dros y Nadolig a'r Calan.**

**Wythnos y Nadolig** (22 tan 28 Rhagfyr)

| Diwrnod casglu arferol | Cesglir ar |
|---|---|
| Dydd Llun 22 Rhagfyr | Dydd Llun 22 Rhagfyr |
| Dydd Mawrth 23 Rhagfyr | Dydd Mawrth 23 Rhagfyr |
| Dydd Mercher 24 Rhagfyr | Dydd Mercher 24 Rhagfyr |
| Dydd Iau 25 Rhagfyr | Dydd Gwener 26 Rhagfyr |
| Dydd Gwener 26 Rhagfyr | Dydd Sadwrn 27 Rhagfyr |

**Wythnos Calan** (29 Rhagfyr tan 4 Ionawr)

| Diwrnod casglu arferol | Cesglir ar |
|---|---|
| Dydd Llun 29 Rhagfyr | Dydd Llun 29 Rhagfyr |
| Dydd Mawrth 30 Rhagfyr | Dydd Mawrth 30 Rhagfyr |
| Dydd Mercher 31 Rhagfyr | Dydd Mercher 31 Rhagfyr |
| Dydd Iau 1 Ionawr | Dydd Gwener 2 Ionawr |
| Dydd Gwener 2 Ionawr | Dydd Sadwrn 3 Ionawr |

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddarparu'r holl gasgliadau dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, fodd bynnag, mae'n bosib bydd diffyg adnoddau yn atal hyn rhag dig-wydd ym mhob ardal. Pe bai hyn yn digwydd yn eich ardal, rydym yn gofyn bod yr holl sbwriel sydd heb ei gasglu yn cael ei gyflwyno ar y diwrnod casgliad priodol nesaf.

Bydd y trefniadau casglu'n mynd yn ôl i'r arfer ar **5 Ionawr 2015**.
www.ceredigion.gov.uk/ailgylchu

# Myfyrdod y Nadolig

'Heddiw buom mewn gwasanaeth eglwys ym Methlehem (mae'r wraig a finnau'n gwirfoddoli yn y Wlad Sanctaidd am gyfnod). Roedd yna addurniadau'r Nadolig yn hongian o'r nenfod tu fewn i'r eglwys a naws yr Ŵyl ym mhob man er fod y gwres yn ugain gradd y tu allan yn yr awyr agored.

Thema'r gwasanaeth oedd cenhadaeth ddiweddaraf yr eglwys hon, sef mynd a chymorth i ffoaduriaid o Syria sydd yn awr yn byw yng Ngwlad yr Iorddonen, a rhoi'r cwbl oll iddynt yn rhad ac am ddim. Deg aelod oedd wedi teithio draw i gario anrhegion ymarferol oddi wrth yr eglwys. Dau beth oedd wedi fy nharo i wrth wrando ar yr adroddiad.

Yn gyntaf, tlawd yw trigolion Bethlehem y dyddiau hyn. Oherwydd y sefyllfa wleidyddol rhyngddynt a'r Israeliaid, prin iawn yw'r bobl sydd mewn gwaith cyflogedig. Felly, allan o'u tlodi maent wedi casglu arian a nwyddau i gyfrannu i ffoaduriaid sydd mewn sefyllfa waeth na nhw. Onid ydy'n wir yn aml iawn, y bobl sydd yn fwy hael na neb arall ac sydd yn fodlon byw yn aberthol yw'r bobl tlawd? Am ryw rheswm neu'i gilydd mae cyfoeth yn tagu haelioni yn y groth.

Yn ail, nid oedd aelodau'r eglwys yn cadw'u haelioni i Gristnogion yn unig;





fel arall, maent yn ceisio helpu pawb, Moslemiaid a Christnogion gyda'i gilydd sydd mewn alltudiaeth o'u cartrefi.

Tagu haelioni yn y groth; diolch byth ni wnaeth Duw hynny gyda'i Fab, yn rhoi stop ar ei ymgnawdoliad, yn dweud ei fod yn rhy gostus i'w roi i'r byd ac yn ormod o risg i'w ganiatàu cael ei eni. Naddo. Ta beth am y bygythiadau a ddaeth i'w rhan yn syth ar ôl genedigaeth y baban, lladd y plant bach dan ddwy oed a'r ffoi i'r Aifft am sbel; mae haelioni a chariad Duw'n fodlon ar y risg. Felly mae aelodau'r eglwys ym Methlehem yn efelychu esiampl Crist yn ei enedigaeth beryglus ac yn ei farwolaeth aberthol nes ymlaen.

Rhoddodd Duw ei Fab i ni yn dilyn pob disgwyl. Yn adeg Crist roedd pawb yn disgwyl y Meseia. Roeddynt yn gwybod yn iawn lle byddai'n cael ei eni. Dim ond holi oedd angen i'r doethion wneud, a dyma'r ateb yn dod yn syth allan o broffwydoliaeth Micha 'Ym Methlehem, yn Jwdea y genir ef'. Roeddyn nhw'n gwybod ac rydym ni'n gwybod. Bethlehem yw'r pentref, Iesu yw'r Meseia, haelioni a chariad yw ein hymateb iddo fe'.

Bendithion y tymor.

**Stuart Bell, Y Borth**

# Colofn Enwau Lleol

**Ffynnon Ceule**

Yn y golofn ddiwethaf, fe soniwyd am ewyllys Griffith Jones, Penrhiw-las, Cwmbrwyno (1784) sy'n cyfeirio at:

"all that one Tenement and Lands called *Pen Rhiw Lase* together with my just share of the Land called *Droskol* being the Liberty and appurtenance there unto belonging situate being and lying East of the Mound and Boundary extending in a direct Line from the Gate at the Top of *Pen rhiw Lase* to a certain Place called *Funnon Keiley*"

Diolch o galon i Eleanor Williams, Penrhiw-las, am gysylltu gyda rhagor o wybodaeth. Er na chlywodd Eleanor erioed am *Drosgol* yn yr ardal, mae'n hen gyfarwydd â'r enw *Ffynnon Ceule*, ac fe'i dangosodd i mi. Mae'n gorwedd uwchlaw'r lôn las sy'n arwain i'r gogledd-orllewin o Benrhiw-las, yn union wedi croesi'r ffin i dir Hafodau (SN704804).

Digwydd y gair *ceule* yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru*, lle nodir ei fod yn gyfuniad o'r elfennau *cau* 'gwag' a *lle* 'man', yn golygu 'gwagle, ceudod, diffwys, gagendor; agen'. Byddai'r ystyron hynny'n gweddu'n berffaith i'r bwlch yn y graig lle mae Ffynnon Ceule yn tarddu.

Cyfeiria Iwan Wmffre (*The Place-Names of Cardiganshire* (2004), tt 239) at enghreifftiau eraill o'r gair mewn enwau lleoedd: *Penrhiwcoule* yng Ngwynionydd, godre Ceredigion, a *Throedrhiwceule* ger Letterston yn sir Benfro (nad yw ei union leoliad yn wybyddus). Mae'n bosibl mai'r un gair a welir hefyd yn *Afon Cwm Coile* i'r de o Hendy-Gwyn, sir Gaerfyrddin.

Gellid dadlau bod enwau ffynhonnau ymhlith yr enwau sydd dan y bygythiad mwyaf o ddiflannu am mai enwau llafar ydynt gan amlaf na chânt eu cofnodi, ac am fod ein dibyniaeth ar ffynhonnau, ac felly ein hymwybyddiaeth o'u lleoliadau a'u henwau, yn dipyn llai na'n cyndeidiau.

Felly, os gwyddoch chi am enw ffynnon yn eich ardal chi, rhowch wybod.

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

www.cymdeithasenwaulleoedd cymru.org



# PENRHYN-COCH

**Horeb**
**Oedfaon**
**Rhagfyr**
21 10.30 Ysgol Sul
2.30 Oedfa Nadolig
25 8.00 Oedfa gymun fore Nadolig
28 10.30 Oedfa diwedd blwyddyn Gweinidog
**Ionawr**
4 2.30 Oedfa gymun Y Parchg Peter Thomas
11 10.30 Oedfa deuluol yr anrhegion Y Parchg Judith Morris
18 2.30. Oedfa Apêl Chad pan fyddwn yn croesawu Dr Menna Machreth, BMS i siarad am yr apêl; Bethel yn cydaddoli
25 2.30 Oedfa ffarwel i'r Gweinidog



## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Catrin a Trefor, Llewelyn, Cadi a Ianto, Cwm Pennant ar farwolaeth mam-gu a hen fam-gu, Mrs E. Britton, 31 Maes Ceiro, Bow Street.

Cydymdeimlwn â Mair Evans, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith o Bontrhydfendigaid yr wythnos ddiwethaf.

## Cylch Ti a Fi

Ers mis Ebrill, cynhaliwyd Cylch Ti a Fi yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch. Bu'n gyfle gwych i ddod i adnabod teuluoedd lleol a chreu perthynas â hwy. Daw tua 10-15 o rieni sy'n dod draw pob wythnos ar fore dydd Mercher rhwn 10 a 12.00. Cynhaliwyd cystadleuaeth yn Sioe Penrhyn-coch ym mis Awst a'r enillwyr oedd 1af – Rhys Mills
2il – Twm Aron
3ydd – Mari Roberts
Bydd y Cylch yn dechrau cyfarfod eto ar Ionawr 7fed

## Clwb Hanner Tymor Horeb

Bydd Clwb Hanner Tymor Horeb yn cyfarfod nesaf ar ddyddiau Mercher a Iau 18-19 Chwefror 2015. Daw mwy o fanylion yn y flwyddyn newydd..

## Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau i Rhys Wyn James, 35 Dôl Helyg, sydd wedi cael rhagoriaeth yn ei arholiad theori cerddoriaeth gradd 1.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Delyth Jones, Rhydyrysgaw, sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith – Meurig Jones, Trefenter.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 13eg o Dachwedd fe groesawodd ein Llywydd, Wendy Reynolds, bawb i'r cyfarfod, a rhoddodd groeso cynnes i Elizabeth Evans - un o swyddogion Merched y Wawr dros Adran Ceredigion a Phenfro - oedd wedi troi i mewn i dreulio noson yn ein plith. Aed ymlaen i wneud y busnes arferol. Derbyniwyd diolch o Gartref Tregerddan am gael stondin yn ei Ffair Flynyddol. Roedd arian a enillwyd gan y Côr a'r Parti Llefaru yn Eisteddfod Penrhyn-coch eleni wedi cael ei rannu rhwng Capel Horeb, Eglwys Sant Ioan a Neuadd y Penrhyn. Cafwyd apêl oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol am ofalwyr maeth, mae eu hangen yn fawr iawn. Trafodwyd cymryd rhan i wneud coeden Nadolig eto eleni gogyfer â Gŵyl Goed Nadolig Eglwys Sant Ioan. Soniwyd am Ŵyl Merched y Wawr mis Mai 2015, hefyd taith Merched y Wawr i Forgannwg. Fe wnaed apêl i roi syniadau gogyfer â dathlu 50 mlynedd Merched y Wawr yn genedlaethol yn 2017.

Dymunwyd yn dda i Ceri Williams sydd yn symud yn ôl i fyw i'r gogledd ar ôl 31 mlynedd yn ein plith. Bu Ceri yn weithgar iawn yn y gangen dros y blynyddoedd.

Yna fe groesawodd ein Llywydd ein gwraig gwadd am y noson sef Ffion Lewis o Lanrhystud sydd â thalent arbennig yn gwneud pob math o bethau efo llechi. Tro cyntaf i Ffion wneud hyn o flaen cynulleidfa, ac roedd yn trafod y llechi mor drwyadl, eu torri i bob math o siapau megis siâp calon ac yn y blaen, ac yna yn eu haddurno gydag ysgrifen arnynt ar gyfer pob math o achlysuron megis priodasau, pen blwyddi ac enwau tai, unrhyw beth fyddech yn ei ofyn am. Cafwyd cyfle i brynu peth o'i gwaith ar y diwedd. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol yn y fenter hon. Diolchwyd iddi yn swyddogol gan Glenys Morgan. Cafwyd cwpanaid a thynnwyd y raffl fisol i ddiweddu'r noson. Noson wych dros ben.



Bore Sul 23 Tachwedd oedd Sul olaf Ceri Williams fel Athrawes Ysgol Sul yn Horeb. Bellach mae hi a'r teulu wedi symud i'r Gogledd. Diolch iddi am ei holl waith gyda'r plant dros y blynyddoedd.

Bu Ceri mor weithgar gyda chymaint o bethau yn y capel a'r pentref – mae'n restr ddiddiwedd – Cinio Cymunedol, Pryd ar Glyd, Ysgol Sul, CIC, Agor y Llyfr, Merched y Wawr, Parti Cyd-adrodd, Parti Canu, Oedfa Nadolig y Cylch Meithrin, Clwb Hanner Tymor, Eisteddfod Perhy-coch ac yn y blaen. Dymunwn yn dda iddi wrth ddychwelyd i'r gogledd - Ynys Môn am y tro.

## Ar y Marc

Roedd hi'n hyfryd clywed Gari Lewis yn cael ei holi ar raglen Radio Cymru *Ar y Marc* ynglŷn â'r gêm dderby gwpan a chwaraewyd rhwng Penrhyn-coch a'r Bont ar 6 Rhagfyr, ar







faes Parc Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid. Llongyfarchiadau i fechgyn y Penrhyn a orfu 1-2.

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Greg Roberts a apwyntiwyd yn Bennaeth Cynorthwyol ar Ysgol Pen-llwyn. Dymuniadau gorau iddo wrth y gwaith.

### Eglwys St Ioan Penrhyn-coch.

**Cwrdd Diolchgarwch.**

'Roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n hyfryd yn lliwiau'r Hydref, ac yn barod i groesawu'r pregethwr gwadd, sef y Parchedig Andy Herrick, o Eglwys Santes Ann, Penparcau. Siaradodd am ei waith sy'n gysylltiedig â'r 'Stordy'r Jiwbilî' sy'n cael ei rhedeg o'i eglwys. Ychydig o agoriad llygad i'r gynulleidfa, a syndod mae'n siŵr oedd clywed yr angen a'r alwad sydd am y math yma o gymorth ar unigolion a theuluoedd yng ngogledd Ceredigion yn yr oes hon. Gall 'Stordy'r Jiwbilî' ddarparu bwyd i bobl leol mewn argyfwng gyda chyflenwad o fwyd hyd at dridiau. Os dymunwch gyfrannu at yr achos, mae yna flwch ar gyfer nwyddau wrth gefn ein heglwys. Mi fedrwch gysylltu'n uniongyrchol gydag Eglwys Santes Anne, am fwy o fanylion cysylltwch drwy e-bost â stanneschurch101@btconnect.com

Cynhaliwyd swper dathlu'r cynhàeaf ar nos Wener 10fed Hydref yn Neuadd yr Eglwys. Siomedig oedd y nifer a fynychodd y dathliad rhaid dweud, ond er hynny cafwyd noson hwyliog. 'Roedd yna aroglau hyfryd yn trafaelu o'r gegin, ac ar offrwm ar y fwydlen oedd cawl cartref, ac i'w ddilyn, pob math o darten ffrwyth a chrwmbwl a llond ein boliau o hufen neu gwstard. Y ficer oedd ein hadloniant i orffen y noson, mi fuodd yn darllen darnau o farddoniaeth gyda chymorth Lona Jones a darllenodd rhan o'i hoff lyfr yn ogystal â limrigau digri.
Gofynnwyd i'r gynulleidfa ddod a thegan meddal ganddynt o unrhyw anifail, i'r gwasanaeth teuluol ar fore Sul y 12fed o Hydref. Dyma pryd oedd y Clwb Sul yn dathlu diolchgarwch y cynhaeaf. 'Roedd y plant wedi bod yn dysgu am hanes Noa ac 'roedd anifeiliaid bychain wedi'i wasgaru ar hyd a lled yr eglwys. Ar ddiwedd y gwasanaeth, casglodd y plant y creaduriaid ynghyd, a'i dodi wrth y ddarllenfa i greu arch Noa.
Uchafbwynt blwyddyn ein heglwys, yw'r Wŷl Goeden Nadolig. Dyma'r ail i'w chynnal, ac eleni 'roedd gennym bedwar ar bymtheg o goed yn llenwi'r eglwys a'r thema oedd 'Gwledydd y Byd'. Mi fuodd prysurdeb diri ar fore Sadwrn y 6ed o Ragfyr pan ddaeth yr holl fudiadau, sefydliadau a chymdeithasau'r pentref ynghyd i addurno'r coed. Rhai o'r gwledydd a ddewiswyd oedd Tsieina, Madagascar, Rwsia, Mecsico, Awstria, Alaska, Israel, yr Alban, Brasil, Twrci a heb anghofio Cymru fach wrth gwrs. 'Roedd tipyn o feddwl a gwaith cartref tu ôl i'r holl syniadau. Mi fydd y dathliadau yn gorffen gyda gwasanaeth Naw llith a charol ar nos Sul y 14eg Rhagfyr am 6 o'r gloch. Enillydd pleidlais y werin am eu hoff goeden oedd Alaska, gan Clwb 60+ Trefeurig. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu gwaith caled a chreadigol i wneud y digwyddiad yn un arbennig. 'Roedd yn wledd i'r llygaid.



**Priodas**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ruth Evans a Gareth Morgan a briodwyd ar 18fed Hydref yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch.

### Aber Jazz

Nos Sadwrn 6 Rhagfyr rhoddodd Aber Jazz eu perfformiad olaf yn Rummers Aberystwyth ar ôl perfformio am dros 40 mlynedd mewn gwahanol dafarnau yn y dref. Dechreuwyd yn y Crystal Palace cyn symud i'r Cwps ac yn y blynyddoedd diwethaf Rummers oedd eu cartref.

Bu Emyr Pugh -Evans, prifathro Ysgol Gynradd Penrhyn-coch yn canu'r trombôn ers 25 mlynedd ac mewn cyfweliad radio efo Sara Gibson soniodd fel y teimlai ei fod yn ddiwedd gyrfa arno wrth i'r band ddod i ben.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

**Tîm 1af**

15/11 ennill 3-1 v Four Crosses - cynghrair
22/11 1-1 v Llangefni - cwpan CBC
29/11 Cwpan Cymru colli Caerau 5 Penrhyn 0
7/12 Ennill 2.1 Bont - Cwpan Canolbarth Cymru

**2il dîm**

15/11 0-6 v Aberteifi- Cwpan Emrys Morgan
22/11 0-3 v Padarn - Cynghrair
29/11 0-0 v Tregaron - Cynghrair
6/12 1-3 v Tregaron - Cwpan Cynghrair

**3ydd tîm**

29/11 1-5 v Eilyddion Aberdyfi

**Merched**

Ni fu gemau.

# BOW STREET

**Oedfaon**
**Capel y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

**Rhagfyr**
21 Rhagfyr bore Oedfa Nadolig y plant, gyda pharti ac ymweliad gan Siôn Corn i ddilyn hwyr am 6.00 SYLWER AR YR AMSER Oedfa arbennig 'Naws y Nadolig' dan arweiniad y Parchg Wyn Morris ac aelodau Capel y Garn, gyda chyfraniadau cerddorol gan y band pres ieuenctid lleol
Paned a mins pei i bawb yn dilyn yr oedfa
25 Rhagfyr · 9 y bore Oedfa Gymun deuluol
28 Walford Gealy (am 10 yn unig)
31 Rhagfyr · 11.30 yr hwyr Oedfa Nos Galan

**Ionawr**
4 Elwyn Pryse
11 Aelodau'r Eglwys
18 Bugail
25 John Tudno Williams

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn efo Dai, Auriel, Mark a Ruth, Trewylan, ar golli cyfnither i Dai yn Llangwyryfon yn ddiweddar, hefyd ei fodryb yn Surrey.

Â Mr Roli Jones, 1 Maes Ceiro, a'r meibion - Meirion Ellis Jones, Capel Bangor a Gwyn Ellis Jones, Bow Street, ar farwolaeth priod a mam - Mrs Georgina Jones.

â Pat Joseph, Maes Ceiro ar farwolaeth ei brawd - Mike Jones, Maes Ceiro (gynt o Rhiwlas, Y Borth)

ac â Mrs Beryl Bowen, 23 Maes Ceiro, Catrin a Trefor, a Llewelyn, Cadi a Ianto ar farwolaeth mam, mam-gu a hen fam-gu, Mrs E. Britton, 31 Maes Ceiro.

Cydymdeimlwn â Mr Paul Keyworth a'r teulu, Y Lôn Groes. Bu farw ei frawd – Mark – yn sydyn iawn yn ddiweddar.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan ein llywydd Mary Thomas a dymunodd wellhad buan i ddwy o'r aelodau, sef Elen Evans a Mair Lewis gan obeithio eu gweld yn ôl yn ein plith yn fuan. Diolchodd hefyd i bawb am eu cefnogaeth i'r te prynhawn yn Afallen Deg. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Meirion Roberts ac yn dilyn cyflwyniad byr gan Mary trosglwyddwyd y noson i'w ofal. Mae Meirion yn adnabyddus yn lleol gan ei fod yn gweithio yn y siop gigydd yn y pentref. Cawson wybod am ei gefndir fel cogydd gan egluro arwyddocad teitl y noson sef "Cig a Phwdin". Roedd e wedi cynllunio yn ofalus er mwyn dangos sgiliau'r cigydd wrth baratoi cyw iâr cyfan mewn ffordd wahanol heb adael yr un asgwrn ar ôl! Dangosodd wedyn ddull arall o gyflwyno'r rholion cig moch a selsig arferol gyda'r cinio ac i orffen roedd gellyg wedi eu potsio mewn gwin twym a hufen iâ cartref. Gwerthfawrogwyd cael blasu rhai o'r danteithion hyn a diolchwyd i Meirion am roi syniadau newydd i ni ar gyfer gwledd y Nadolig gan Mary. Ann a Beryl fu'n gyfrifol am baratoi paned ac enillwyd y raffl gan Beryl hefyd.

Ar y 14eg o Dachwedd aeth nifer o'r aelodau i gymryd rhan yn y Cwis Cenedlaethol yn Nhŷ Glyn Aeron. Er i'r ddau dîm, sef, Mary, Brenda, Gweneira ac Ann; a Bethan, Margaret, Joyce a Janet gael noson hwyliog iawn a mwynhau yn fawr, ni ddaeth llwyddiant i'w rhan y tro yma.

### Bedydd

Bore Sul, 16 Tachwedd 2014, bedyddiwyd Math Lewys, mab bach Steffan ac Elen Roberts, Mynydd Gorddu; brawd Lois, yng Nghapel y Garn gan y Parchg Wyn Morris. Dymunir bob bendith i'r teulu.

### Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhydwen Mitchell a Sara Davies briodwyd ym Mynachlog-ddu ar 13 Rhagfyr.



Ar ddechrau Tachwedd cynhaliwyd digwyddiad bywiog yn Neuadd Rhydypennau, Bow Street ar "Lle nesaf ar ôl yr Alban?", lle y trafodwyd y goblygiadau i Gymru o'r ymgyrch annibyniaeth a'r newidiadau sy'n debygol o ddod yn ei sgîl.

Cafwyd cyfraniadau gan y panelwyr Cynog Dafis, Elin Jones AC, y darlithydd Dr. Elin Royles, a Steffan Lewis, sef prif gynghorydd arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood. Trafodwyd nifer o bynciau ddiddorol fel pwerau treth, datganoli gwasanaeth cyfiawnder troseddol a seilwaith rheilffyrdd.Trefnwyd y cyfarfod gan Gangen Rhydypennau Plaid Cymru, a chadeiriwyd gan Mike Parker, ymgeisydd San Steffan y blaid ar gyfer Ceredigion.

### Chwiorydd Capel Y Garn

Cynhaliwyd Paned a Chacen blynyddol y Chwiorydd yn y Festri fore Sadwrn, Tachwedd 29ain pryd gwahoddwyd pobl i ddod â chyfraniadau i Fanc Bwyd y Jiwbili. Roedd staff Cartref Tregerddan wedi paratoi Cacen Adfent hyfryd ar ein cyfer eleni eto a thorrodd y gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, y darn cyntaf i agor y digwyddiad. Yna cafwyd egwyl ddifyr iawn dros goffi a danteithion tymhorol yn rhannu penbleth wrth geisio datrys pos lluniau blynyddol Iestyn Hughes. Rhannwyd elw'r cyfarfod rhwng Capel y Garn a'r Stordy Bwyd. Crewyd naws gynnes y Nadolig brynhawn Mercher, Rhagfyr 3ydd, pan ddaeth Eryl Evans i'r te misol. Wrth arddangos ei gwaith llaw cain a dyfeisgar rhannodd beth o'i

hanes a'i hatgofion a darllen darnau o farddoniaeth yn ymwneud â'r Nadolig. Merched y Dolau oedd yn gweini'r te.

### Dymuniadau da

Dymunwn yn dda i Mr E. Rowlands, Tregerddan, sydd wedi bod am driniaeth yn yr ysbyty.

Pob dymuniad da i Mr Rhys Thomas, Tŷ Clyd, ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Da deall fod Mrs Mair Lewis, Maes Ceiro, yn gwella ar ôl ei chodwm yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Gareth Lewis, sydd adref o Ysbyty Llwyn Helyg, Hwlffordd.

### Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Rhian Gwynne a Heath Ragget, Bwtsiar Pendre, ar eu dyweddïad.

### Ymddeoliad hapus

Dymuniadau gorau am ymddeoliad hir a hapus i Marian Beech Hughes a ymddeoloddd o'i swydd fel Pennaeth yr Adran Olygyddol yn y Cyngor Llyfrau dydd Gwener 12 Rhagfyr.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

Plygain Morlan (7.30, nos Fercher, 17 Rhagfyr): croeso cynnes i bawb.

The World is my Country (7.00, nos Lun, 12 Ionawr): ymunwch â'r gweithredwyr heddwch Emily Johns a Gabriel Carlyle am sgwrs am y mudiadau a'r unigolion fu'n gwrthwynebu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd cyfres o bosteri (gan Emily Johns) yn darlunio hyn i'w gweld yn Morlan 7-14 Ionawr.

Noson Gwis Morlan (7.30, nos Fercher, 21 Ionawr): cwis blynyddol ble mae capeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan.

Manylion llawn ar wefan Morlan: www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

# Y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngogledd Ceredigion

Mae arddangosfa Cofio a Myfyrio ar y Rhyfel Mawr Pwyllgor Tair Gofalaeth gogledd Ceredigion wedi dod i ben ei thaith. O'r trafod a'r pendronni dechreuol daeth y prosiect yn realiti ddechrau mis Tachwedd, a hynny'n bennaf o ganlyniad i guradu hollol ddiflino William Howells ac arweiniad creadigol Euros Lewis.

Y cam cyntaf oedd y Diwrnodau Cywain a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn ardaloedd y tair gofalaeth i roi cyfle i bawb ddod á'u creiriau i'w dangos i'r curadur. Cawd casgliad syfrdanol yn cynnwys cardiau post a chardiau Nadolig, nodlyfrau, dyddiaduron, llythyron a lluniau, medalau a cheiniogau'r meirw, arfau bygythiol ac anrhegion cain, tystysgrifau nyrsio, ewyllysiau, dogfennau dadfyddino, beiblau, a'r cyfan wedi eu cadw gyda gofal mawr a phopeth yn dod â'i stori gydag ef.

Paratowyd llawlyfr i roi cefndir i'r arddangosfa, ac i gydredeg â'r prosiect ond yn annibynnol oddi arno, cyhoeddodd Gwynfor Hughes, Caerdydd, lythyron ei dad, William Hughes, mab Tŷ Capel y Garn, o'r Ffrynt Gorllewinol at ei gyfaill T I Rees, Bronceiro, (tad Mrs Morfudd Rhys Clark) a oedd yn gweithio i'r Gwasanaeth Diplomyddol yn Venezuela ar y pryd. Yn addas iawn felly Gwynfor Hughes agorodd yr Arddangosfa yn Neuadd Rhydypennau, yng nghwmni plant ysgolion cynradd ardaloedd y tair gofalaeth a band pres o bobl ifainc lleol. Clywyd hefyd ddarlleniad o Neges Ewyllys Da yr Urdd, a rhoddodd William Howells ac Euros Lewis ragflas o'r hyn oedd i ddod i ni.

Gosodwyd yr arddangosfa yn dair rhan, sef tri chabinet lle roedd y pethau hynny na ellid eu glynu wrth y paneli, cilfach lle roedd lluniau John Meurig Edwards o wersylloedd y Tiriogaethwyr yn cael eu dangos ar sgrîn, ac yn olaf, ond nid yn lleiaf, y deugain panel arddangos.


Ar y deuddeg panel cyntaf roedd enwau a manylion 65 o frodorion yr ardal a laddwyd. Yna roedd tri phanel yn rhoi sylw i William Oliver Jones, Taigwynion, ewythr Gwenda James, ar sail y wybodaeth fanwl yn ei lythyron, ei ddydiaduron a'i nodlyfrau; dilynwyd hynny gan ddau banel i ymdrech merched - roedd y curadur wedi synnu cyn lleied o sylw a gai eu cyfraniad yn gyffredinol; dau banel i William Hughes a T I Rees; dau i wersylloedd Bow-Street a Gelli Angharad; un ar recriwtio a hyfforddi; un ar yr Efaciwis o Wlad Belg a fu yn ysgol Rhydypennau; dau o gardiau post a anfonwyd o'r Ffrynt; un i'r rhyfel ar y môr a H. Byron Williams yn benodol; ac i orffen cafwyd wyth panel o luniau ac atgofion y rhai a ddychwelodd o'r rhyfel, gydag ambell i stori, fel un John M Davies, Ponterwyd am ei amlen werdd, yn ddychryn, a'r toriad papur newydd am y gwrthwynebydd cydwybodol Robert John Ellis yn agoriad llygad. I gloi'r arddangosfa rhoddwyd sylw i'r gwaith o godi arian i goffâu'r lladdedigion, a llun dadorchuddio'r gofeb ym Mhenrhyn-coch.

Tra bod hyn i gyd yn cael ei drefnu roedd Euros Lewis wedi bod wrthi yn llunio drama ar sail yr hyn a glywsai am atgofion lleol yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Canlyniad hynny oedd perfformiad dramatig dirdynnol yn cael ei gyflwyno gan actorion penigamp mewn dwy ran - Act 1 yn y Garn a chapel Pen-llwyn, ac Act 2 ym Methel Tal-y-bont a Horeb Penrhyn-coch. Cyfrannwyd dros £300 i Gymdeithas y Cymod o'r casgliadau yn y perfformiadau.

A dyna ni, mae'r bwrlwm drosodd a phob un ohonon ni fu'n ymwneud ag e ar ein hennill. Gobeithio bod hynny'n wir hefyd am y 500+ fu'n ymweld â'r arddangosfa ar ei thaith o Rydypennau i Dal-y-bont, i Gapel Bangor, i Benrhyn-coch, i Gapel Seion, ac i Ysgolion Penweddig a Phen-glais.

*Cofio'r Rhyfel Mawr / WW1 Remembered 1914–1918*
Llyfryn dwyieithog, lliw llawn, yn rhoi cefndir arddangosfa Cofio'r Rhyfel Mawr, enwau a manylion cryno am y rhai a gollwyd o'r ardal, hanes gwersyll y Tiriogaethwyr yn Bow Street, a nifer o luniau lleol o'r cyfnod.

Copïau ar gael, pris £2, gan Llinos Dafis (828262) neu Marian Beech Hughes (828662)






**Y plac gwreiddiol o Fethlehem, Cwmerfyn sydd nawr ar fedd chwaer James James (Elizabeth Jane Powell) ym Mynwent y Garn; a'r Gofeb yn Ysgol Trefeurig. Cafwyd ar ddeall fod bwriad gan y Gymuned i adeiladu rhywbeth yn y Maes Chwarae ym Mhen-bont Rhydybeddau i osod hwn a Chofeb 1939-45 yno.**

# Y BORTH

### Symud aelwyd

Dymunwn yn dda i Mrs. Gwenda Williams sydd wedi symud o Ton Pentre, Y Borth, ac wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Ar Dachwedd 28ain dathlodd dau gyn aelod anrhydeddus o'r Gymdeithas ben blwydd eu priodas yn 70. Bu Nancie a Bert Birch fyw yn y Borth am y mwyafrif o'u bywyd priodasol ac roeddynt yn aelodau ffyddlon yn Eglwys St Matthew, Cymdeithas y Bad Achub a Chymdeithas yr Henoed. Bu iddynt symud i gartref gofal ym Mryste  y llynedd ac mae colled ar eu hôl. Buont gyda'i gilydd am 80 mlyedd ac roedd nifer o aelodau y teulu efo nhw i ddathlu'r achlysur arbennig yma.

Cawsom drip siopa llwyddiannus iawn i Telford yn Nhachwedd. Rhaid iddo fod yn llwyddiant gan fod pob sedd wag ar y bws wedi eu llenwi hyd at y to (bron!) efo bagiau siopa mawr ar y daith nôl. Diolch yn fawr i John o R.J. Jones Travel am ddiwrnod allan cystal.

Cawsom de parti Nadolig dydd Iau Dechreuwyd y cyfarfod yn drist gyda thawelwch er cof am ein hannwyl aelod fu farw yn 95 oed yn Nhachwedd - Kathleen Jones. Ar ôl rhan fusnes y cyfarfod fe fu i ni chwarae cwis Nadolig wedi ei ysgrifennu gan Betty a chafwyd te blasus wedi ei baratoi gan y Pwyllgor. Ni ddaru ni ganu carolau yn ôl yr arfer gan mai Kathleen arferai ganu'r piano i ni ond y flwyddyn nesaf, pan fydd Rosa wedi llwyr wella ar ôl ei chodwm fe ofynnwn iddi hi gyfeilio i ni.

Cynhelir ein cinio Nadolig yr wythnos nesaf yn Llety Parc, Aberystwyth. Rydym yn lwcus i gael y band o Ysgol Penweddig i'n diddanu ar ôl y bwyd. Ni fyddwn yn cyfarfod wedyn tan Ionawr 8fed am 2.00 yn Neuadd y Borth efo te calan. Mae croeso i holl henoed y Borth a'r pentrefi cyfagos.

Cysylltwch â Betty ar 871135 am fwy o fanylion am y Gymdeithas gyfeillgar hon.

### Eglwys St. Matthew

Roedd yn wych gweld cymaint o oedolion a phlant wedi dod i'r gwasanaeth coeden Nadolig dydd Sul Rhagfyr 7fed. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys darlleniadau o'r Beibl, cerddi, storïau a charolau. Roedd y canu yn wych. Dyma y grwpiau fu'n addurno coeden a chymryd rhan: Ysgol Craig yr Wylfa, Cylch Meithrin, Y Ganolfan Deulu, y Sgowtiaid, Ysgol Sul, Clwb Cinio. Sefydliad y Merched, Y Lleng Brydeinig, Amnest Rhyngwladol,





Gwelir yn y llun uchaf Y Birches ar eu pen blwydd priodas platinwm (70 ml) ac mae'r ail lun wedi ei dynnu ddiwrnod eu priodas – yn Bebbington, Penrhyn Cilgwri (Wirral) yn ôl pob tebyg.

Cyngor Cymunedol y Borth a Chymdeithas yr Henoed . Roedd yr eglwys yn edrych yn arbennig ar gyfer dathliadau'r Nadolig. Diolch yn fawr i Amanda Trubshaw am drefnu y gwasanaeth hyfryd.

Perfformir Drama'r Nadolig ar Ragfyr 14eg gan blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul fydd yn dweud y stori trwy air, symudiad, cerddoriaeth a chân.

Noswyl Nadolig bydd gwasanaeth yng ngolau

Llun: Iestyn Hughes



Gweler t.8



Llun: Iolo ap Gwynn

Criw nôl yn ffilmio y Gwyll

cannwyll am 3.00 y prynhawn a gwasanaeth cymun hanner nos am 11.30p.m.

Dydd Nadolig ydd gwasanaeth cymun am 10.30 y bore.Bydd croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau. Mae ei gwasanaeth Nadolig yn dechrau am 11.15 a.m.

Dyma rifau ffôn defnyddiol: Y Ficer: Y Parchg Cecilia Charles - 871889; Wardeiniaid: Margaret - 871056, Susan - 871355

### Ysgol Sul

Fe'i cynhelir am 11.15 a.m. ar Suliau yn y Den yng nghefn yr eglwys.N i fydd un ar Ragfyr 21ain na'r 28ain ond byddwn yn ail-ddechrau ar Ionawr 4ydd a byddem wrth ein bodd yn eich croesawu yna. Dylai fod yn dawelach ar ôl prysurdeb sesiynau celf a chrefft a gwaith y Nadolig. Diolch yn fawr i Leasa a Stuart am eu holl gymorth yn ystod y flwyddyn ac i'r rhieini gynorthwyodd cymaint dros gyfnod y Nadolig. Diolch i Den, Jood a Hattie am ei sesiwn recordio. Gobeithiwn ddefnyddio peth o'r CD yn ein Gwasanaeth Nadolig a gobeithiwn fod yn fwy parod os daw cyfle arall gan Den y flwyddyn nesaf. Os oes cwestiynau am yr ysgol Sul cysylltwch â Joy – 871649

### Dyfeisio App defnyddiol

Llongyfarchiadau i Gary Jones, Fferyllfa y Borth a Thal-y-bont. Daeth anrhydedd genedlaethol i›w ran yn ystod yr hydref pan gyflwynwyd tystysgrif arbennig iddo gan Gymdeithas Fferyllwyr Annibynnol Prydain mewn cyfarfod arbennig yn Llundain yn y categori ‹Gwobr Newyddbeth›. Eisoes llwyddodd Gary efo›r gwasanaeth dosbarthu meddyginiaeth i›r cartref ddyfeisiodd. Nawr mae wedi creu ‹app› fydd o help mawr i yrrwr y fan ddosbarthu. Mae wedi profi›n adnodd llwyddiannus ac unigryw hyd yn hyn ac o fudd mawr i›r fferyllfa a›r claf.

## GOGINAN

### Gwella

Da yw clywed fod Huw Jones, Yr Hafan, Cwmbrwyno allan o'r ysbyty ar ôl bod yna am ychydig wythnosau. Llwyr wellhad buan iddo.

### Y Druid

Llongyfarchiadau i Lewis Johnston ar ei lwyddiant eleni eto yn y Gystadleuaeth dros Gorllewin Cymru am werthu cwrw iawn. Braf yw gweld busnes lleol yn cael cydnabyddiaeth dros ardal ehang.

### Mr Maldwyn Davies, Goginan

'Gwyn eu byd y rhai addfwyn' medd y Beibl, ac yr oedd addfwynder yn un o rinweddau amlwg Maldwyn Davies, Bryn Meillion, Goginan, a fu farw yng nghysur ei gartref ddydd Sul, 9 Tachwedd 2014, yn 86 oed.

Yr oedd Maldwyn, yn wir, yn un o'r rhai addfwynaf y gellid ei adnabod. Fe'i disgrifiwyd gan fwy nag un yn ddyn bonheddig a charedig, gweithiwr trylwyr a chydwybodol, a gŵr a thad annwyl a theyrngar o fewn cylch y teulu.

Cafodd ei fagu yng Nghapel Bangor gyda'i chwiorydd Gwen a Doris, ond ers blynyddoedd bellach bu'n byw yng Ngoginan lle roedd yn aelod gweithgar o'r gymdeithas gan fynychu Capel y Dyffryn yn rheolaidd tan ei salwch diweddar. Roedd yn arddwr cymen, yn bysgotwr medrus ar un adeg, yn arlunydd dawnus, ac yn berffeithydd wrth y gwaith o gynnal a chadw ei gartref.

Fe'i cofir yn aelod uchel ei barch o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yr oedd ganddo yntau feddwl uchel iawn o'r sefydliad hwnnw, ei ddiwylliant a'i ddelfrydau. Byddai wrth ei fodd yn rhannu'r cyfeillgarwch a fodolai rhwng y staff, a chadwai gysylltiad â rhai o'r cydweithwyr hynny hyd y diwedd, er iddo ymddeol ers dros chwarter canrif.

Yr oedd ef a'i wraig, Eirlys, wedi bod yn briod ers dros hanner can mlynedd a braf iawn oedd medru cynnal dathliad y llynedd i nodi achlysur eu Priodas Aur, pan ddaeth teulu, cymdogion a chyfeillion ynghyd i Fryn Meillion. Gwerthfawrogai Maldwyn y gofal trylwyr ac annwyl a dderbyniodd gan Eirlys, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd olaf hyn pan y'i llethwyd ef gan anhwylder. Yr oedd ganddo feddwl uchel hefyd o Dylan, ei fab, a'r llwyddiant a ddaethai i'w ran yntau yn ei yrfa, yn bennaeth uned gofal dwys yn un o ysbytai Lerpwl, heb sôn am Sheila, ei ferch yng nghyfraith, a'r ddau ŵyr, Cillian a Cormac.

Cynhaliwyd yr angladd ddydd Sadwrn, 15 Tachwedd, yng Nghapel Saron, Llanbadarn Fawr, dan lywyddiaeth ei gymydog, y Parchedig Ifan Mason Davies, gydag anerchiad gan y Parchedig Derrick Adams, gweinidog Eglwys Efengylaidd Gymraeg Aberystwyth. Yr organydd oedd Mrs Llio Adams. Cludwyd y corff gan y Mri Mark Evans, Dafydd Evans, Gwyn Lewis, Donald Davies, Dafydd Ifans a Dylan Jones, ac fe'i claddwyd yn ei gynefin bore oes, ym mynwent Capel Penllwyn.

Cysur yw meddwl fod Maldwyn bellach ym mhresenoldeb ei Arglwydd, ac fel un o'r rhai addfwyn, y mae bellach yn un o etifeddion Duw, yn lân a phur yn nheilyngdod gwaed yr Oen - y Gwaredwr yr oedd, trwy ffydd, yn ymddiried yn llwyr ynddo.

### Diolch

Hoffai Eirlys a Dylan ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth. Diolch i feddygon a staff Meddygfa'r Llan am eu gofal, ac i Ceri am ei chymorth a'i chefnogaeth ymarferol. Gwerthfawrogwyd presenoldeb y rhai a ddaeth i'r gwasanaeth ddydd yr angladd, a diolchir i bawb a gynorthwyodd gyda'r trefniadau. Cydnabyddir derbyn nifer mawr o roddion yn lle blodau ar gyfer cronfa i godi byngalo ychwanegol ar dir Plas Lluest, sy'n gartref Cristnogol lleol i rai â nam meddyliol.



**Unwaith eto eleni cynhaliwyd y Ffair Grefftau yn y garej yng Ngoginan ond eleni yn wahanol i'r arfer fe cyhaliwyd dros ddau ddiwrnod. Codwyd dros £300 at Gymdeithas Goginan. Ond y newyddion trist yw ei bod yn edrych yn debyg mai'r ffair yma fydd yr olaf ar y safle gan fod yr eiddo wedi ei werthu a busnes newydd yn dechrau yna ddechrau'r flwyddyn.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

**ytincer@googlemail.com**

# Siaradwyr Penweddig yn y Cynulliad!

Cafodd grŵp siarad cyhoeddus yr ysgol gryn lwyddiant yn ddiweddar yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotari, trwy gyfwng y Gymraeg, yn Llanymddyfri. Eu testun oedd 'Gwastraff amser yw tair blynedd yn y Brifysgol'. Dafydd Rees oedd y cadeirydd, y prif siaradwr oedd Eiry Williams a'r gwrthwynebydd oedd Mabli Mair. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt sydd ym mlwyddyn 13, ar areithiau aeddfed a graenus iawn mewn cystadleuaeth o safon uchel.

Braf yw cyhoeddi fod y tîm wedi ennill cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus dros Gymru! Cafwyd areithiau gwych ac aeddfed eto o flaen cynulleidfa newydd yn Nhŷ Hywel yn y Cynulliad yng Nghaerdydd ar 24 Tachwedd. Yn ogystal enwebwyd y merched, Mabli Mair ac Eiry Williams, ar gyfer gwobr siaradwr gorau'r diwrnod a daeth Dafydd Rees i'r brig drwy ennill y safle cyntaf fel Cadeirydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt!



Mabli Mair, Aberystwyth; Dafydd Rees, Bow Street ac Eiry Williams, Llangwyryfon yn y Cynulliad

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*


mudiad meithrin – arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Cam wrth Gam – hyfforddiant blynyddoedd cynnar

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan: **www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 23 Ionawr, 2015**

**Dilynwch ni: @camwrthgam**





Llywodraeth Cymru Welsh Government



GANWYD IESU
Dewch yma i ddathlu'r Nadolig
Mae croeso i bawb o bob oed
Capel y Garn www.capelygarn.org

## OEDFA NADOLIG CAPEL Y GARN TRWY LYGAID Y GAIR A'R GEIRIAU

dan arweiniad y Gweinidog,
**Y Parch Wyn Rhys Morris**
ac aelodau'r Capel,
a cherddoriaeth y band pres ieuenctid lleol

**Nos Sul**
**21 RHAGFYR am 6.00 o'r gloch**



GANWYD IESU
Dewch yma i ddathlu'r Nadolig
Mae croeso i bawb o bob oed
Capel y Garn www.capelygarn.org



**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**GWASANAETH TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mae'r esgid economaidd yn dal i wasgu yng Ngheredigion, gyda chyflogau segur a thwf chostau byw yn broblem i nifer. Mae unrhyw beth sy'n helpu lleddfu'r baich i'w groesawu, ac roeddwn yn falch o helpu lansio'r cynllun 'Clwb Clyd' yn ddiweddar. Cynllun yw hwn i annog effeithlonrwydd ynni, ac i alluogi mwy o bobl i brynu ar y cyd er mwyn arbed ar eu biliau. Mae angen hyn yng Ngheredigion, lle mae'r gyfran o bobl sydd ddim ar y grid nwy yn uchel iawn:- 70%, yn uwch nag ucheldir yr Alban. Mae nifer o grwpiau lleol eisoes yn bodoli – cymerwch olwg ar wefan 'Clwb Clyd' i weld os oes un yn eich ardal chi.

Bydd dyfodiad y gaeaf hefyd yn gonsyrn i'r rheiny sy'n byw lle mae llifogydd yn gallu bod yn broblem. Wrth gwrs, gwelsom broblemau llynedd mewn sawl man, ac mi fûm yn siarad gyda phobl mewn sawl ardal am gynlluniau i wella'r sefyllfa at y dyfodol. Mae'n glir fod Aberteifi nawr yn flaenoriaeth uchel i Gyfoeth Naturiol Cymru ac maent hefyd yn edrych ar gynlluniau pellach yn Llanbadarn a mannau eraill. Mae'n hollbwysig fod y gwahanol asiantaethau yn cydweithio, a byddaf yn pwyso am gynnydd ar y cynlluniau yma.

Bydd busnesau lleol, wrth gwrs, yn edrych ymlaen at gyfnod pwysig o'r flwyddyn. Rwy'n sicr y bydd nifer yn cefnogi diwrnod cenedlaethol y siopau lleol ar Ragfyr y 6ed, ac yn cymryd mantais ar y busnesau a'r cynnyrch lleol gwych sydd i gael yng Ngheredigion. Cefais nifer o gyfleon yn ddiweddar i drafod hynt a helynt busnesau bach, gan gynnwys ymweliad â gwinllan newydd Llaethliw yn Nyffryn Aeron, a sesiwn hawl i holi gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach.

Gwych hefyd oedd cael y cyfle i fynychu Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc ym Mhontrhydfendigaid. Cafodd ei threfnu'n wych gan CFFI Ceredigion, ac ar ddiwedd diwrnod brwd o gystadlu, y clybiau lleol aeth a hi. Da iawn bawb!

# Prosiect Hanes Llafar Dyfi 360

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST
Montgomeryshire Maldwyn

Mae'r Tŵr Gwylio Dyfi 360 yn eistedd ar gornel tair sir, mae'n edrych dros yr ystumiau dwfn o'r afon dywyll ac yn gwylio yn dawel y tirlun sy'n newid yn barhaus. Mae'n mewn sefyllfa berffaith i ddal cymaint o beth sy'n digwydd yn ac o amgylch Bro Ddyfi.

Fel rhan o'r Prosiect 360, rydym eisiau cofnodi lleisiau y bobl o'r ardal. Rydym eisiau clywed straeon am sut oedd hi, sut mae pethau wedi newid a sut y gallai fod yn y dyfodol. Dyma pam rydym yn lawnsio prosiect Hanes Llafar newydd o'r Tŵr Gwylio 360 yng Nghors Dyfi.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â'r prosiect. Bydd y grŵp prosiect yn cael eu hyfforddi i gasglu a chofnodi cyfweliadau, a bydd yn cymryd rhan mewn casglu a chynhyrchu cyflwyniad a fydd yn cael ei arddangos yn y Tŵr Gwylio 360 yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn chwilio am bobl a fyddai'n hoffi rhannu eu straeon a'u hatgofion o'r ardal a'r afon.

Bydd y sesiwn hyfforddiant ar gyfer pobl sydd eisiau casglu a chofnodi cyfweliadau yn cael ei gynnal ar Ddydd Llun 26ain Ionawr ym Machynlleth.  Bydd cyfleoedd eraill i gymryd rhan os ydych chi ddim yn gallu dod ar y dyddiad hwn. Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly archebwch yn gynnar os hoffech fynychu.

Yn ogystal â storïau a chyfweliadau, byddem ddiddordeb hefyd gennym mewn unrhyw hen luniau neu arteffactau sydd gennych o'r ardal, neu waith a ddigwyddodd yma.

Am fwy o wybodaeth am y prosiect neu i gymryd rhan, cysylltwch â: Kim Williams. 01654 871414. kim@montwt.co.uk

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

ytincer@googlemail.com

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Capel Pen-llwyn**
**Oedfaon diwedd y flwyddyn**
Rhagfyr 21ain Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10 o'r gloch.
Rhagfyr 28ain Y Parchg Judith Morris am 5. o'r gloch

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Dyma lun o rai o blant y Cylch o flaen eu campwaith Nadolig. Mae staff y Cylch yn hoffi creu gyda'r plant ac mae diolch mawr yn mynd iddynt am eu gwaith caled drwy gydol y flwyddyn, 'Miss Tracy' Exley, ein Harweinyddes, 'Miss Shirley' Evans, 'Miss Jools' Davies a 'Miss Iola' Morris.

Rydym bellach wedi ymgartrefu yn y Caban ar dir Ysgol Pen-llwyn ers tymor yn awr ac yn ddiolchgar o'r croeso gan yr ysgol a'r Clwb ar ôl Ysgol sydd yn rhannu ein lle. Rydym hefyd yn falch i ddweud y byddwn yn gallu cynnig amserau o 9yb tan 3yp o mis Ionawr yn ogystal â'r sesiwn 9-1yp sydd ar hyn o bryd. Rydym yn ddiolchgar i Cathy, cogyddes yr ysgol am allu cynnig darpariaeth cinio ysgol i blant y Cylch hefyd ac mae llawer iawn ohonynt yn cymryd y cyfle yma. Os am fwy o wybodaeth am ffïoedd a llefydd i'r Cylch cysylltwch gyda Nia Lewis ar nia26@btinternet.com neu gyda Carol Macy ar cmpenllwyn@gmail.com.

Cawsom llawer o hwyl a sŵn gyda ein disgo Calan Gaeaf yn y Neuadd a chodwyd swm sylweddol o £325 i fynd tuag at y Cylch. Diolch i bawb am gefnogi ni. Cawsom hefyd stondin i hybu'r Cylch yn Noson Agored Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd ar y 4ydd o Ragfyr a llongyfarchiadau iddyn nhw am noson hyfryd a chael ymweliad hwyliog gyda Sion Corn. Mae Cylch Meithrin Pen-llwyn yn agored i unrhyw blentyn rhwng 2-4 oed ac yn cefnogi tair ysgol yr ardal Ysgol Syr John Rhys, Ysgol Mynach a Pen-llwyn.

Bellach rydym wedi cael ein swper Nadolig yn y Tynllidiart ac yn edrych ymlaen i barti Nadolig i'r plant a'i rhieni, i rhieni newydd a ffrindiau'r Cylch yn Neuadd y Paith, Capel Seion ar 12fed o Rhagfyr o 9.30yb tan 1yp. Bydd siawns i greu, i chwarae ac i gael bwyd parti.

Bydd hefyd siawns i bawb ymgynnull yn Neuadd Capel Bangor rhwng 9-11yb ar y 18fed Rhagfyr am gyngerdd Carolau gyda'r plant. Bydd y plant yn canu a bydd siawns i gael paned, mins pei a gweld amryw o stondinau; a gobeithio gweld Sion Corn wrth gwrs. Os oes unrhyw un am gael stondin i werthu ei nwyddau yna cysylltwch gyda'r Cylch. Croeso i bawb

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Meirion Ellis Jones, Maes y Neuadd, ar golli ei fam yn ddiweddar, a mam-gu i Neula.

### Croeso yn ôl

Croeso i Dr Robin Young, Islwyn, yn ôl o Norwy, wedi bod yn ymweld â'i deulu am rai wythnosau.






### Clwb Hwyl Hwyr

Daeth "Hwyl Hwyr" dan arweiniad y Parchg Derek Adams, Aberystwyth, i ben am y flwyddyn, gyda pharti .Bu rhai o'r plant yn ffyddlon iawn i'r clwb gydol y flwyddyn, pryd y ceir yno stori o'r Beibl, gêmau, crefft, squash a biscedi. (mae rhain yn bwysig iawn wrth gwrs!) Diolch i Derek am ei holl baratoi erbyn pob brynhawn Gwener, gydag ychydig bach o gymorth gan Heulwen ac Aeronwy.! Diolch iddo hefyd am ddiddori y plant yn y parti.

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Berian Lewis, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Pen-llwyn ar gael ei benodi yn Ddirprwy Bennaeth ar Ysgol Plas-crug, Aberystwyth. Dymuniadau gorau iddo wrth y gwaith.

### Gwasanaeth y Plant

Mae'r Nadolig yn amser llawen, a gwir ystyr y rhialtwch yw cofio am eni ein Harglwydd Iesu Grist. Dyma yn sicr a wnaeth plant ysgol Sul Pen-llwyn ar y 7fed o Ragfyr, yn portreadu pob cymeriad yn ymwneud â'r genedigaeth, a ddigwyddodd dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Mae'r un ar ddeg o blant yr Ysgol Sul

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

yn ffyddlon iawn, a dangoswyd hyn yn eu hadroddiadau gwahanol, o gymeriadau stori'r Nadolig, ac hefyd eu datganiad o'r emyn "Ganwyd Crist ym Methlehem dref", yn rhoddi gwir fwynhad i'r gynulleidfa.

Diolchodd y Parchg Wyn Morris i bawb oedd yn bresennol, i'r tadau a mamau, yn ogystal â'r mamau cu a'r tadau cu,. Rhaid fod hyn yn foddhâd pur iddo gael cynulleidfa niferus.

Cymerwyd rhan hefyd gan athrawon y festri, sef Jean ac Aeronwy sy'n dysgu y plant lleiaf, pob yn ail fis, a Delyth a Heulwen yr un peth gyda y plant hŷn. Delyth hefyd oedd yr organyddes y Sul hwnnw.

Cafwyd neges bwrpasol i'r plant gan y gweinidog, a derbyniodd pob un ohonynt gomic crefyddol ganddo, cyn diwedd yr oedfa.



(Rhes gefn o'r chwith) Megan (Mair), Nannon (Darllenwraig), Luned (Herod), Alaw (Darllenwraig), Llŷr (Dyn y Llety) Ail Res Elen (angel), Morgan a Tomos (Bugeiliaid), Efanna (Gŵr Doeth), Anya (asyn bach),Owen (Joseff).






eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**Gwaith Bricio**
**R+R**
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Siop
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

**SWYDDFA'R POST BOW STREET**
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

# Dathlu 25ain mlynedd o weithgarwch yr elusen amaethyddol y R.A.B.I. yng Ngheredigion




Dathlodd pwyllgor y Royal Agricultural Benevolent Institution (R.A.B.I.) Sir Ceredigion 25ain mlynedd o weithgarwch yr elusen, ar nos Wener 7 Tachwedd ym Mwyty a Chanolfan Gynadledda TyGlyn yng Nghiliau Aeron.

Daeth 125 o bobl i'r Cinio Dathlu, a'r siaradwr gwadd oedd cadeirydd cenedlaethol R.A.B.I., Christopher Riddle, a oedd wedi teithio'r holl ffordd o Gernyw i ymuno yn y dathlu. Cafwyd araith bwrpasol ganddo, a diolchodd i'r pwyllgor am eu hymdrechion diflino i godi arian a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer yr elusen yng Ngheredigion.

Roedd Dilys Morgan, aelod o'r pwyllgor o Dal-y-bont, wedi coginio ac addurno cacen arbennig ar gyfer yr achlysur, diolch o galon i Dilys.

Cyflwynwyd tystysgrif am wasanaeth hir i nodi'r digwyddiad gan Christopher Riddle i lywydd y pwyllgor, sef Gwilym Jenkins, o Gors-goch, un o aelodau gwreiddiol y pwyllgor.

Diolch i aelodau o CffI Tregaron am ddiddanu'r gynulleidfa yn dilyn y cyflwyniadau ffurfiol, gydag amrywiaeth o sgetsus, caneuon, a darnau adrodd digri. Cynhaliwyd raffl ac arwerthiant yn ystod y noson, a diolch i David Davies, o gwmni Morgan & Davies am ocsiwna nifer o eitemau.

Dywedodd Linda Jones, rheolwr rhanbarthol y R.A.B.I. yng Nghymru: "Hoffem longyfarch aelodau'r pwyllgor yng Ngheredigion ar gyrraedd y garreg filltir hon. Mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad dros y 25 mlynedd diwethaf wedi dwyn ffrwyth wrth iddynt godi swm sylweddol o arian i helpu teuluoedd sy'n gysylltiedig â ffermio pan fo'r esgid fach yn gwasgu. Hoffwn hefyd fynegi fy llongyfarchiadau i lywydd y sir, Gwilym Jenkins, ar dderbyn ei wobr arbennig".

Ychwanegodd y cadeirydd Stephen Hunt: "Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor sir am eu gwaith gwerthfawr ar hyd y blynyddoedd. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb yng Ngheredigion sydd wedi ein cefnogi yn bersonol, neu'n broffesiynol. Gyda chefnogaeth y gymuned amaeth yng Ngheredigion, rydym wedi gallu helpu nifer o deuluoedd mewn angen".

Llwyddwyd i godi £1,953 o elw ar y noson i roi hwb i gronfa sirol R.A.B.I. Ceredigion.

I gael gwybod mwy am waith y R.A.B.I. ewch i'r wefan www.rabi.org.uk neu os am gymorth, ffoniwch y llinell gymorth gyfrinachol ar 0300 303 7373.

## llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Deryn du

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i  Tomos, Pall Mall, Towyn, ŵyr Aneurin a Gwen Morgan Y Byngalo ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hay yn Lerpwl.


### Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Glenys Williams, Ty'n Wern, ar gael dyrchafiaeth o Uwch-ddarlithydd i Ddarllenwraig yn Adran y Gyfraith Prifysgol Aberystwyth.

### Urdd y Benywod

Nos Lun 1af o Ragfyr cafwyd noson o wneud addurniadau Nadolig yng nghwmni Sarah Dyer, Llain, a Gill Fathers, Hafod y Glyn. Bu rhai wrthi yn gwneud angylion i'w rhoi ar y goeden Nadolig a bu eraill yn gwneud torchau ar gyfer eu haddurno. Noson hwylus iawn a diolch i Sarah a Gill am yr holl waith paratoi ar gyfer y noson.

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*



## Colofn Mrs Jones

Wn i ddim o le y daeth y Nadolig hwn, un munud, roedd o yn ddiogel bell a digon o amser i baratoi ar ei gyfer a'r peth nesaf mae ar ein gwarthaf a fe  fydd yn rhaid i mi ei symud hi  i gael popeth i drefn.

Ond pan gwynais am hyn, wrth Ifor fy mrawd, ychydig iawn o gydymdeimlad  gefais. I'r gwrthwyneb ei ymateb oedd nodi mai arnaf fi fy hun oedd y bai , am fy mod wedi bod yn ormod o Lewis Morris.

Hynny yw, ym marn yr hen Ifor, dydw i ddim wedi bod yn wael yn ddiweddar, wedi bod yn gwynfanllyd ydw i a dim ond angen f'ysgwyd yn dda i'm gwella! Pwy faga frawd!!

Ond fe fydd yn rhaid i minnau ei chychwyn hi, er mi wyf wedi gwneud un penderfyniad; ychydig iawn o gardiau yr wyf am eu hanfon eleni , yn hytrach, mi drefnaf ddigwyddiad i godi arian tua adeg fy mhen blwydd ym mis ar gyfer elusennau motor niwron a'r clefyd melys. Fe fu farw fy nhad o un yn 1985 a bu farw fy mam o effeithiau y clefyd melys ar  y galon. A mae hi yn ben blwydd arbennig arnaf i.

Un peth sydd wedi fy nifyrru i yn fawr yn ddiweddar a hynny yw'r modd y cymer Saeson enwau'r misoedd i enwi elusennau; stopember, a tashember.mae yna rhywbeth yn ddigon trawiadol ynddynt hyd nes y stopiwch i feddwl am y peth. Mae'r  trefnwyr wedi dewis yr enwau er mwyn dangos perthynas a'r elusen, mae Stopember i'r rhai a fynn stopio ysmygu a tashember ar gyfer  Tachwedd fynn dyfu mwstas trwy dybio, am wn i, ma mo o moustache yn cydfynd rhwysut a'r tash....y drwg ydi o, na dydi o ddim. Dynodi dechrau y misoedd yn ôl rhifau Rhufeinig y maent, saith =September, Octo= wyth October a novo = naw, November.Mae'n amlwg fod y tarddiadau gwneud wedi glynu. A chan fod pawb arall yn yr un twll, glynu a wnaent. Pa ryfedd yr honnai fy nhad y dylai pawb o leiaf fedru cyfrif i ddeg mewn Lladin.

Fe fyddaf i yn pryderu, weithiau, weld cymaint o orfod rhoi llaw mewn poced i gyfarfod a gofynion ymchwil meddygol. Ond, yn wyneb fy nghynlluniau i fy hun, taw piau hi efallai...ond mae motor niwron cyn brinned fel mai ychydig iawn o arian ymchwil y mae'r llywodraeth yn ei roi ar ei gyfer.

Beth bynnag, rhaid troi ac ymorol am swper. Blodfresych a saws caws sydd ar y menu yn y tŷ hwn, a mins pei, efallai os oes un ar gael..,

A NADOLIG A CHALAN HAPUS A BENDITHIOL I BAWB OHONOCH.

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor uchod ar nos Iau 27 Tachwedd o dan lywyddiaeth yr is-gadeirydd y Cyng. Siân Jones. Croesawyd y Cyng. Rob Pugh yn ôl wedi ei brofedigaeth. Codwyd rhai eitemau o gofnodion cyfarfod yr Hydref megis gosod offer ym Maes Chwarae Bryncastell. Gwelwyd ffoto o'r agoriad yn y wasg leol ac mae'n debyg fod pawb (bron) yn hael eu canmoliaeth. Bydd angen gosod llawr caled wrth y fynedfa gan fod tipyn o wlybaniaeth yno. Yr oedd un fam yn bryderus am fod gwartheg yn cerdded o gwmpas a gofynnodd beth oeddynt yn eu gwneud. Yr ateb a gafodd oedd "yr un peth â'r hil ddynol - busnesa!" Mae'r sbwriel wrth y fynedfa i Bryncastell wedi ei glirio. Cyfrannwyd £300 addawedig tuag at Brosiect y Cofio yn yr ardal.

Mae'r ymgyrch tuag at gael Gorsaf Rheilffordd yn Bow Street yn symud ymlaen yn ffafriol, gyda'r Cynghorau lleol yn ogystal â'r Cyngor Sir yn cefnogi'r prosiect yn gadarn.

Eglurodd y Clerc y rhesymau am y camddealltwriaeth a ddaeth allan yn ddiweddar parthed newid safle Swyddfa Bost yn Bow Street. Hyn oherwydd camddarlleniad ar lythyron yr Asiantaeth. Ni fwriadwyd erioed i'r Swyddfa symud i Aberystwyth, ond byddai gwasanaeth Swyddfa Bow Street i'w gael yno, os nad oedd ym Mhenrhyn-coch, ar y dydd y bydd y trawsnewid yn digwydd.

Brawychwyd y Cyngor gyda'r newydd fod angen newid yr oll o ffenestri Ysgol Rhydypennau ac nad oedd yr Awdurdod Addysg yn medru fforddio newid yr un ohonynt. Hyn yn syrthio ar gronfeydd yr ysgol ac ar gyfraniad y Cynghorau Bro ac elusennau eraill. Os mai dyma'r sefyllfa heddiw, yr ydym yn prysur syrthio yn ôl i gyfnod slymiau oes Fictoria. Dyma enghraifft arall o'r Cynghorau mawr yn dadlwytho cyfrifoldeb ar y Cynghorau Bro. Bydd Tirymynach yn ystyried eu cyfraniad pan ddaw'r amser a mwy o wybodaeth.

Adroddodd y Cyng. Hinge bod cyfarfod o PACT ar 7 Ionawr yn Neuadd Rhydypennau am 7pm. Bydd cyfarfod i drafod dyfodol Ysbyty Bron-glais yn y Morlan, Aberystwyth ar 15 Rhagfyr am 6.30pm.

Derbyniwyd pecyn holiadur arolwg ar ail-gylchu yn yr ardal ac fe'u dosbarthwyd. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Ionawr pryd y dosberthir cyfraniadau i elusennau lleol.

# Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn sicrhau cyllid o £20m



Dydd Llun 15 Rhagfyr cyhoeddodd Gweinidog Cyllid a Busnes Llywodraeth Cymru Jane Hutt, taw Prifysgol Aberystwyth fydd y cynllun cyntaf gwerth miliynau o bunoedd i dderbyn y golau gwyrdd drwy raglenni cyllid newydd yr Undeb Ewropeaidd 2014-2020 sydd werth £2 biliwn. Roedd y Gweinidog Cyllid yn ymweld â Champws Gogerddan y Brifysgol i gyhoeddi buddsoddiad o £20 miliwn drwy Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop i ddatblygu Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (AIEC). Bydd yr adeilad yn cael ei godi y drws nesaf i adeiladau IBERS; disgwylir iddo agor yn 2018, ac y byddai yn cynnal tua 108 o swyddi.

Bydd y cynllun gwerth £35m ar Gampws Gogerddan yn cynnwys adeiladu adnodd o'r radd flaenaf a fydd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol er mwyn denu mwy o gyllid ymchwil fel bod cwmnïau ac ymchwilwyr yn medru cydweithio ar gynlluniau ymchwil i hybu'r bio-economi. Disgwylir i'r gwaith ymchwil gynhyrchu cynnyrch, gwasanaethau a chwmnïau deillio newydd yn y sectorau bwyd, iechyd, biotechnoleg a ynni adnewyddadwy.

Mae'r mentrau a gynlluniwyd ar gyfer y AIEC yn cynnwys:


- Canolfan Diogelwch Bwyd, Maeth ac Ynni
- Canolfan Bwyd y Dyfodol
- Canolfan Bio-buro
- BioFanc Hadau a Chyfleuster Prosesu
- Canolfan Rhyngddisgyblaethol y Bio-economi

Mae'n dda deall fod y gyllideb yn cynnwys cynlluniau i wella y ffyrdd yn yr ardal – yn arbennig y groesffordd yng Ngogerddan.

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*



# LLYFRAU




Gordon Jones *Dannedd Mel Morgwn*
Rily 24t. £6.99


*Dannedd Mel Morgwn* gan yr awdur a golygydd, Gordon Jones, Bow Street, yw llyfr gwreiddiol cyntaf i Gyhoeddiadau Rily ei gyhoeddi. Dyma stori fywiog sy'n annog plant i lanhau eu dannedd ac i fwyta'n iach. Mae'r môr-leidr bach, Mel Morgwn a'i ffrind, Padi Parot, yn mynd ar antur i ddarganfod os yw anifeiliad yn glanhau eu dannedd – ac yn dod o hyd i ddulliau rhyfedd iawn!

Cafodd Gordon, a gyflwynodd ei stori i'w ddeintydd Adam Llewellyn, ei ysbrydoli i ysgrifennu stori ar ôl iddo glywed bod plant meithrin a chynradd yn cael gwersi ar sut i ofalu am eu dannedd. "Am flynyddoedd roedd arna i ofn mynd at y deintydd," meddai, "ond heddiw mae'r sefyllfa yn well o lawer ac mae deintyddion fel Adam yn gwneud y profiad yn bleserus. Ro'n i'n meddwl y gallai stori ddoniol efo darluniau gwych gan Graham Howells fod yn hwb arall i blant lanhau ei dannedd."

Dywedodd y deintydd Adam Llewellyn, Deintyddfa Llanbedr Pont Steffan:
"Mae Gordon Jones a Graham Howells wedi llwyddo i greu stori fendigedig am ddannedd a iechyd deintyddol i blant a theuluoedd dwyiethog. Mae ethos y llyfr yn cyfleu cyfarwyddiadau proffesiynol mewn modd positif a chofiadwy. Dwi'n edrych ymlaen at gael y llyfr yn y ddeintyddfa ac eisiau clywed mwy am hanesion y môr-leidr, Mel Morgwn!"

"Mae hon yn garreg filltir yn hanes Rily," dywedodd Lynda Tunnicliffe, sylfaenydd a Chyfarwyddwr Cyhoeddiadau Rily. "Mae Gordon wedi creu stori ddwyieithog wahanol iawn am fôr-ladron. Gyda chymorth lluniau gwych Graham Howells, mae'r llyfr yn plethu neges bwysig am iechyd deintyddol mewn dull hwyliog a hynod o ddiddorol – pwy fyddai'n meddwl bod mwncïod yn flosio'u dannedd!

---




*Straeon Gorau'r Byd* gan Caryl Lewis
Gwasg Carreg Gwalch £8.50


Mae Caryl Lewis, Gogianan, a bleidleisiwyd yn 'Hoff Awdur Cymru' yn dweud iddi gael ei hysbrydoli gan ei mam yn adrodd straeon wrthi pan oedd yn eneth:

"Roedd Mam yn dweud straeon o bedwar ban byd wrthyf i pan oeddwn i'n ferch fach. Roeddwn i'n dwli ar yr enwau rhamantus, y cymeriadau rhyfedd a'r straeon gogoneddus. Yn sicr, mae clywed y straeon hynny yn ifanc wedi fy sbarduno innau i fentro ysgrifennu straeon fy hunan. Mae gen innau ddau blentyn bellach ac rwyf innau'n ceisio cyflwyno'r un math o straeon i'w plesio a'u cyffroi hwythau."

Wrth gynnal y traddodiad dweud straeon o fewn ei theulu ei hun, mae wedi llunio casgliad hudolus o ddeg o straeon byd-eang sy'n tanio dychymyg y plant.

Eisteddwch yn gyfforddus felly a mwynhewch y wledd hon a gwibio o Mozambique i Nigeria gan alw yn yr Eidal, Cymru, Japan, Gwlad Pwyl, Unol Daleithiau America, Canada, Rwsia a Kazakhstan. Bydd y lluniau lliwgar yn siwr o apelio hefyd a rhoi blas ychwanegol o'r gwledydd hynny i chi.

# LLANDRE



### Nadolig gwyn, coch a gwyrdd

Roedd gweithgareddau ym Methlehem nos Wener 28 Tachwedd, i ddathlu'r Nadolig, yn ddrych o gymdeithas iach, gyda phawb yn gydweithio fel un. Do, fe fu nifer o bobl yn cynorthwo gyda'r gwahanol agweddau o'r trefniadau. Gwnaed yr holl drefniadau heb alw yr un pwyllgor a chyd-gysylltwyd y cyfan trwy ddefnyddio e-byst a ffôn.

*Nadolig Gwyn Coch a Gwyrdd* oedd thema'r noson eleni ac fe adlewyrchwyd y lliwiau ar y stondinau ac yn yr addurniadau hardd. Noa Gwynn Jones, Ysgol Rhydypennau oedd y buddugol yn y gystadleuaeth creu Cerdyn Nadolig yn ôl dyfarniad y beirniaid Marian a Iestyn Hughes. Bu cryn gystadlu hefyd ar orffen limrig a llunio brawddeg yn y ddwy iaith ac fe ddyfarnwyd gwobrau gan y beirniad llên Arwel Rocet Jones i Llinos Evans, Linda Jones, Geraint Williams ac Eryl Evans. Diolchodd Arweinydd y Noson Gwynfryn Evans i Huw Ceiriog a Greg Hill am lunio'r testunau. Trefnwyd stondinau o fwydydd a diodydd amrywiol, anrhegion o waith llaw cain a'r stondin lyfrau gan Siop Inc. Darparwyd diodydd tymhorol a chyfranwyd mins peis gan gangen Merched y Wawr. Roedd nifer o weithgareddau a chystadlaethau newydd i blant eleni gan gynnwys stondin paentio wynebau. Bydd elw'r noson yn cael ei gyfrannu tuag at welliannau yn Ysgoldy Bethlehem. Trefnwyd y noson gan Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn.

**Y Darnau Buddugol**

Mor wyn yw'r Nadolig mewn eira
Mor wyrdd yw'r gelynnen drwy'r gaeaf
Ond beth sydd yn goch?
Gofynnwn yn groch
**Wyn Mel efo poen yn ei fola**
Dim Stop – Llinos Evans, Dolwerdd

There's a jolly old man from the North
(Somewhere –way up there – beyond Borth)
Coat red as a dragon
His green and white wagon
**Will be here about April the fourth**
Tom MacDonald (jnr) – Geraint Williams, Tyddyn Llwyn

Brawddeg CALENNIG
Cofiwch am law enbyd 'na'th niwed i Geredigion
Seithennyn – Eryl Evans, Y Ddol

Brawddeg MISTLETOE
Maybe I should talk less every time others elaborate
Sali Mali – Linda Jones, Y Berllan

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r -glyn

Ni fydd cyfarfod ym mis Rhagfyr. Mae'r cyfarfod nesaf o'r gangen ar Nos Lun Ionawr 19, 2015 yn Ysgoldy Bethlehem, - nid fel y gwelir yn y rhaglen pnawn Sadwrn 17 Ionawr. Bydd y noson yng ngofal Glenys a Mair.

### Banc Bro

Enillwyr mis Tachwedd

1 £30 - Bryn Roberts, Bow Street
2 £20 - Regina Jones, Bron y Gân
3 £10 - Dewi Hughes, Bow Street

Enillwyr Arian Mawr Nadolig y Banc Bro

1 £60 - Winnie Davies, Nant y Deri
2 £40 - Mair England, Pant y Glyn
3 £30 - David James, Dolhuan

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gilbert a Linda Jones, Llysnewydd, a'r teulu ar farwolaeth brawd Gilbert yn ddiweddar.
Ac â Eric Ellis Jones, Carreg Arian a'r teulu ar farwolaeth mam Eric, sef Georgina Ellis Jones, Maes Ceiro, ar Dachwedd 18.

### Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Geraint Williams, Tyddyn Llwyn, ar ddathlu pen blwydd arbennig mis diwethaf.

### James Memorials yn dathlu 25 mlynedd mewn busnes

Llongyfarchiadau i Paul James ar dathlu 25 mlynedd mewn busnes. Dechreuodd Paul y fenter yn 1989, ac ers hynny mae'r busnes wedi mynd o nerth i nerth.



Meinir a Huw Meirion Edwards yng nghwmni Robin Chapman ym mharti ffarwelio Huw â'r Adran Gymraeg. Dymuniadau gorau iddo ar ei swydd newydd yng Nghyngor Llyfrau Cymru



Llun: Iestyn Hughes

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Bags 2 school

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i bawb a roddodd eu hen ddillad i'r cynllun Bags 2 School. Rydym wedi codi £200 i'r ysgol. Ardderchog!

### Plant mewn angen

Roedd y plant a'r staff wedi mwynhau gwisgo i fyny mewn dillad gwely am y dydd er mwyn codi arian tuag at Blant Mewn Angen. Penderfyniad aelodau'r Cyngor Ysgol eleni oedd hyn ac roedd yn ffordd hyfryd o godi £68.39. Diolch i blant y Cylch Meithrin am ymuno gyda ni. Diolch i bawb am helpu.

### Gŵyl Aml Sgiliau

Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 lawer o hwyl a sbri yn yr Ŵyl Aml Sgiliau ar y 19eg o fis Tachwedd. Cafodd yr ŵyl ei threfnu gan 'Ceredigion actif - 5x60'. Cafodd y plant fore gwych yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau chwaraeon gwahanol sy'n rhoi blas iddynt o beth sydd ar gael iddynt.

### Gorymdaith lusernau Aberystwyth

Hoffwn ni ddiolch i Polly Sills-Jones am redeg gweithdai gyda'r plant a rhieni i greu llusernau ar gyfer yr orymdaith yn Aberystwyth ar Nos Wener 28ain o Dachwedd. Roedd yn hyfryd gweld y plant a rhieni yn brysur iawn yn creu llusern i gynrychioli'r Ysgol a'r Cylch Meithrin.

### Ffair Nadolig

Bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn brysur iawn yn creu canhwyllau, 'bath bombs' a 'body scrubs' i werthu yn y ffair Nadolig ar ôl ein Sioe Nadolig flynyddol ym mis Rhagfyr. Hoffwn i ddiolch i Helen Hinks am ddod i helpu'r plant i greu'r canhwyllau. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn ac wedi llwyddo i greu anrhegion Nadolig perffaith.

### Canu carolau

Ar fore dydd Mawrth 2il o Ragfyr, bu plant yr ysgol yn canu carolau yn y gymuned. Yn gyntaf aethom i ganu yn siop Morrisons ac wedyn aethom i gartref henoed Hafan y Waun i ganu mwy! Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb am y croeso cynnes, y diodydd a'r cacennau blasus. Cafodd y plant lawer o hwyl ac rydym wedi codi £181.31 tuag at brynu adnoddau i'r ysgol. Ardderchog blant!!




Canu yn Hafan y Waun



Helen Hinks




Emynydd amlycaf Cymru yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif oedd y Parchedig W. Rhys Nicholas (1914–96). Yn enedigol o sir Benfro, bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Bryn, Llanelli, Horeb a Bwlch-y-groes, Ceredigion, a Phorth-cawl. Roedd yn fardd ac yn llenor, yn ysgrifennydd i bwyllgor *Y Caniedydd* (1960), ac yn gyd-olygydd cylchgrawn *Y Genhinen* am flynyddoedd. Ond fe'i cofir yn bennaf am ei emynau, yn enwedig 'Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist, Fab Duw', a genir ar y dôn 'Pantyfedwen' gan M. Eddie Evans.




Cyfrol deyrnged iddo yw *Y Cyfoeth Gorau*, a gyhoeddir gan Gymdeithas Emynau Cymru i nodi canmlwyddiant ei eni. Mae'n cynnwys teyrngedau ac atgofion gan nifer o'i gydnabod, ysgrifau am ei farddoniaeth a'i emynau, a detholiad o'i waith. Pris y gyfrol, a gyhoeddir erbyn Nadolig 2014, yw £6.95.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Gymnasteg

Llongyfarchiadau mawr i dîm gymnasteg yr ysgol. Llwyddodd y tîm i ennill y gystadleuaeth rhanbarthol yn Llambed yn ddiweddar i ysgolion hyd at 100 o blant. Bu'r aelodau wrthi yn ymarfer yn ddiwyd ers mis Medi o dan arweiniad Miss Cory. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant; byddant yn awr yn symud i gystadlu yn Genedlaethol. Pob lwc iddynt.

### Plant mewn Angen

Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, trefnwyd cyfle i'r disgyblion i wisgo dillad eu harwyr. Gwelwyd cymeriadau megis Batman, Spiderman, Tywysoges o Frozen. Roedd hyd yn oed y staff wedi gwisgo i fyny. Diolch i bawb a wisgodd i fyny; codwyd swm arbennig tuag at Plant mewn Angen.

### Ffair Nadolig

Cyn diwedd mis Tachwedd, cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol. Croeswyd nifer o gwmnïau atom a diolch iddynt am eu cefnogaeth di flino. Daeth criw o rieni a ffrindiau atom yn ystod y noson. Cafwyd ymweliad arbennig gan Sion Corn. Diolch i bawb am eu haelioni a'u parodrwydd i gefnogi yr ysgol. Llwyddwyd i godi dros £800 i'r ysgol.

### Ffair Aeaf

Eleni eto bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y Ffair Aeaf. Llwyddwyd i ennill nifer o wobrau:-

<u>Bisgedi wedi eu haddurno</u>
1af Gwenan Jenkins

<u>Canhwyllau.</u>
2il Seren Bedder

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu. Da iawn chi.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Roberts ar gael ei benodi yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Pen-llwyn. Bydd yn cychwyn ar ei swydd newydd yn y flwyddyn newydd.

### Ffarwelio

Rydym wedi ffarwelio gyda Mrs Morgan. Bu Mrs Morgan yn gweithio gyda ni yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Evans. Ein dymuniadau da iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Gynradd Aberaeron.



Disgyblion y dosbarth derbyn yn eu gwisgoedd Plant mewn Angen.



Tîm Gymnasteg yr ysgol a ddaeth yn gyntaf yng Ngheredigion i Ysgolion dan 100 o blant



Gwenan a Seren a enillodd wobrau yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.



Cardiau Nadolig yr ysgol a grewyd gan bob plentyn

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*

# Ysgol Pen-llwyn



Plant dosbarth 1 yn ymarfer yn y Capel yn eu gwisgoedd hyfryd



Plant dosbarth 2 yn sefyll wrth ymyl bedd Richard Vaughan



Creu llusernau yn neuadd yr ysgol

### Diogelwch a'r we

Mi fu'r heddlu yn yr ysgol yn ddiweddar yn sôn am bwysigrwydd diogelwch ar y we. Fe gafwyd cyfle i drafod y gwahanol ffyrdd mae'r plant yn defnyddio'r we. Achubwyd a y cyfle i edrych ar ddiogelwch wrth groesi'r ffordd hefyd gan fod y ffordd y tu allan i'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd yn gallu bod yn brysur. Yr ydym yn obeithiol y bydd camau i arafu'r ceir ar waith rhywbryd yn 2015.

### Llusernau

Mi fu Alice Briggs a nifer o rieni eraill wrthi yn creu llusernau i'r plant eu cario yn y parêd cyn troi y goleuadau ymlaen yn y dref yn ddiweddar. Fe gafwyd tipyn o hwyl wrth y gwaith ac mi oedd yr holl ymdrech yn werth chweil.

### Bedd Richard Morris

Fe dderbyniwyd llythyr diddorol i'r ysgol ar y 10fed o Dachwedd gan ifaciwi o'r enw Mr Glyn Hughes a fu'n byw yn y Tŷ Capel yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Tra yno fe laddwyd mab y teulu, sef Richard Vaughan, tra'n hedfan mewn awyren fomio. Gwnaethpwyd cais i ni chwilio'r bedd a gosod pabi arno ar yr 11eg Dachwedd. Yr oedd map syml yn y llythyr i'n helpu. Wedi tipyn o chwilio ym mynwent yr eglwys a'r capel fe ddaethpwyd o hyd i'r bedd. Fe gawsom y profiad o gael sgwrs gyda'r cyn ifaciwi tra'n sefyll wrth y bedd. Fe ddaeth a hanes yn fyw i ni'r bore hynny.

### Afonydd y byd

Fe fu Llŷr, Liam a Huw yn ysgol Comins-coch yn ddiweddar yn dysgu am afonydd y byd. Mi oedd yn agoriad llygad i'r plant sylweddoli pa mor llygredig yw rhai o afonydd y byd. Allwch chi enwi rhai o brif afonydd Asia ?

### Cyngerdd Nadolig

Wrth fynd i'r wasg mae'r plant newydd berfformio yn eu cyngerdd Nadolig a gynhaliwyd yn y capel y flwyddyn yma. Yr oedd cynulleidfa dda wedi dod ynghyd i fwynhau noson oedd yn cynnwys actio, canu, darnau offerynnol, adrodd a hyd yn oed ychydig o bale. Diolch i Mrs Herschel am fod yn barod i ni ddefnydio'r gwisgoedd ar gyfer stori'r geni a berfformiwyd gan ddosbarth 1 ac i aelodau'r capel am ganiatàu i ni ddefnyddio'r adeilad. Y diolch mwyaf, fel arfer, i'r plant am berfformio mor wych – mi ydych yn sêr i gyd!


**Cronfa Eleri**

**Blwyddyn 2014 – dros £19,000 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **www.cronfaeleri.com**

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 17eg 2015**

**Amcanion Cronfa Eleri**

*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

Harddwch
Siriol
Beauty

**07962 861 822**

www.facebook.com/siriolbeauty

Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

# Ysgol Rhydypennau

### Cofio'r Rhyfel Mawr

]Bu'r plant yn Neuadd Rhydypennau yn ddiweddar er mwyn gweld arddangosfa arbennig a oedd yn nodi effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ar yr ardal leol. Gwelwyd lluniau, dogfennau, llythyron, cardiau post, sleidiau ac arteffactau o'r cyfnod helbulus hwn. Yn ystod yr ymweliad bu'r plant yn ymchwilio a chasglu gwybodaeth ac fe ddaeth erchylltra'r rhyfel yn fyw iddynt.

### Plant mewn angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 16eg o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu stondinau er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £466. Ardderchog!

### Talebau Morrisons

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu talebau Morrisons dros y misoedd diwethaf. Ar ôl llwyddo i gyfri'r cyfan gwelwyd fod dros 9,000 o dalebau wedi eu casglu. 'Rydym nawr yn y broses o drafod a phenderfynu beth i brynu.

### Casglu Dillad

Dros yr wythnosau diwethaf bu nifer o blant a rhieni yn clirio'u ystafelloedd gwely er mwyn casglu dillad, esgidiau ac hen fagiau nad ydynt angen bellach. Yna, penodwyd diwrnod arbennig er mwyn casglu'r holl fagiau yn ganolog at ei gilydd. Yna aethpwyd a'r llwyth i ffwrdd mewn fan fawr dan gynllun 'Bags 2 School'. Y tro hwn casglwyd gwerth 980 cilo o ddillad, sydd tua £400. Diolch i bawb a fu'n casglu.

### Ymweliadau

Yn unol â Chyfoeth Naturiol Cymru, fe aeth Blwyddyn 2 i'r goedwig ger Plas Gogerddan i fwynhau gweithgareddau difyr yng nghwmni Leigh Denyer. Bu'r plant yn edrych ar weddillion y dail ar frigau'r coed er mwyn eu henwi; cafodd y plant gyfle hefyd i arsylwi ar fywyd gwyllt yr ardal; ac i orffen, fe dostiwyd mashmalos o flaen y tân.

Cafwyd ymweliad gan yr awdur lleol Gordon Jones yn ddiweddar. Mae Gordon, sy'n gyn- riant newydd gyhoeddi llyfr gwreiddiol i blant o'r enw *Dannedd Mel Morgwn* (Rily) sy'n hybu glendid y dannedd trwy stori. Yn ystod sesiwn ddifyr iawn bu'r plant yn actio a gwisgo fel môr ladron ac yn mwynhau ambell bwt o'r stori gan Gordon hefyd. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon iddo.

### Gala'r Urdd

Da iawn i bawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol iawn yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i'r efeilliaid Selena a Leanna Williams am gyrraedd Gala Nofio Cenedlaethol Cymru. Fe enillodd Selena'r ras unigol dull broga i ferched blwyddyn 5 a 6, ac fe enillodd Leanna'r ras unigol dull Pili Pala i ferched blwyddyn 5 a 6. Mae'r gala cenedlaethol ym Mhwll Nofio Cenedlaethol Cymru, Caerdydd yn y flwyddyn newydd. Pob lwc i'r ddwy.

### Ail lansio gwefan yr Ysgol

Rydym wedi ail lansio Gwefan yr Ysgol. Bellach mae'r wefan wedi esblygu i gynnwys nodweddion newydd. Ac, fel ysgol, yr ydym ar flaen y gad gan fod y wefan yn cynnwys argaeledd arbennig sy'n crebachu neu'n cynyddu sgrin eich IFfôn, eich IPad neu eich gliniadur arferol.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: *http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk* *@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr '*Y Tincer*;'
oddi wrth plant a staff Ysgol Rhydypennau.



Arddangosfa'r Rhyfel Mawr



Coed Gogerddan



Ymweliad Gordon Jones



Y Nofwyr Nodedig-Selena a Leanna Williams



Stondin Plant Mewn Angen

# Tasg y Tincer

Diolch i'r ddwy fach fu'n brysur yn lliwio llun y castell mis diwethaf, sef Beca Davies o Bow Street a Lily-May Welsby o Aberystwyth. Am luniau hyfryd! Dy enw di, Beca, ddaeth o'r het y tro hwn, felly llongyfarchiadau mawr i ti.

Beth yw eich hoff beth am yr adeg hon o'r flwyddyn, tybed? Ar wahân i ymweliad Siôn Corn, wrth gwrs, dwi wrth fy modd yn edrych ar y goleuadau sy'n disgleirio ar y goeden Nadolig. Dwi hefyd yn hoff iawn o olau cannwyll. Tybed ydech chi wedi gweld y teclyn sy'n y llun o'r blaen? Yr enw arno yw **menorah**, ac mae Iddewon dros y byd yn cynnau canhwyllau'r menorah yr adeg hon o'r flwyddyn, er mwyn dathlu gŵyl arbennig ac un sy'n debyg iawn i'n Nadolig ni. Enw'r ŵyl bwysig hon yw **Hanukkah**, ac mae'n para am wyth diwrnod, gan ddechrau ar 16 Rhagfyr a dod i ben ar 24 Rhagfyr. Fel ein Nadolig i, mae Iddewon yn rhoi anrhegion i'w gilydd ac yn canu caneuon arbennig – ac yn bwyta pethau blasus!

Y mis hwn, beth am liwio llun y menorah, a'r plant yn cynnau'r canhwyllau? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd calan (Ionawr 1af). Ta ta tan toc, a Nadolig llawen i chi i gyd!



Beca Davies



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X

Rhif 374 | RHAGFYR 2014